WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2018 – **Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**


Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 913A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gabrielle Smith, Anthony Ford a Gareth Lewis.

# Cynnwys


Adroddiad

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 5

Y cefndir 5

Y prif gasgliadau

Mae trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda ar y cyfan, ond gallai wella ansawdd ac ehangder yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd. 6

Llywodraethu

At ei gilydd, mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei harwain a'i llywodraethu'n dda, ond gallai gynyddu ehangder yr wybodaeth a gyflwynir gerbron y Bwrdd. 6

Cynllunio strategol

Ceir fframwaith cynllunio cydlynol sydd wedi'i alinio'n dda, ac mae newidiadau ar y gweill i adroddiadau ar berfformiad er mwyn cynnal asesiad gwell o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol a'r gwerth a'r effaith a sicrheir. 15

Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

Ar y cyfan, mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu, ei chyllid a'i hasedau ffisegol yn dda o ddydd i ddydd, ac mae cefnogaeth dda ar gael i reolwyr a deiliaid cyllideb. Er hynny, gallai wella agweddau ar gaffael, adroddiadau ariannol a pherfformiad y gweithlu 19

Argymhellion 27

Atodiadau

Atodiad 1 - cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol 28

Atodiad 2 - ymateb yr Ymddiriedolaeth i argymhellion eleni 33

# Adroddiad

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith Asesiad Strwythuredig 2018 yr Archwilydd Cyffredinol yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Cyflawnwyd y gwaith er mwyn cynorthwyo i fodloni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, sef bod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Roedd ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2018 yn cynnwys cyfweliadau â swyddogion a chyfarwyddwyr anweithredol, arsylwi cyfarfodydd y bwrdd, pwyllgorau a rheolwyr ac adolygu dogfennau, perfformiad a data ariannol perthnasol. Cynhaliom hefyd arolwg o aelodau bwrdd ar draws holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. Cafwyd ymateb gan naw o'r 17 (53%) o aelodau bwrdd a gafodd wahoddiad i gymryd rhan o fewn yr Ymddiriedolaeth.[1]

3 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn dilyn themâu tebyg i'r blynyddoedd cynt, er ein bod wedi ehangu'r cwmpas i gynnwys sylwebaeth ar drefniadau'n gysylltiedig â chaffael, rheoli asedau a gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r adroddiad yn rhannu ein canfyddiadau o dan dair thema - trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, ei hymagwedd at gynllunio'n strategol a'r trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. I gloi'r adroddiad, nodir ein hargymhellion.

4 Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r camau gweithredu a gymerwyd i ymateb i argymhellion asesiad strwythuredig y flwyddyn gynt. Yn Atodiad 2 ceir ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion a ddeilliai o'n gwaith yn 2018.

## Y cefndir

5 Wrth weithio ar ein Hasesiad Strwythuredig ar gyfer 2017 canfuom fod y Bwrdd yn gweithio'n effeithiol ac yn adeiladu ar waith i wella ac ymwreiddio trefniadau ar gyfer llywodraethu da ac effeithiolrwydd y sefydliad, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i oleuo'r strategaeth hirdymor. Roedd y trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn gweithio'n dda: unwaith eto, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn 2017-18. Llwyddodd i sicrhau arbedion cynlluniedig gwerth cyfanswm o bron i £2.2 miliwn a chadw gwarged bychan (£28,000). Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ddyletswyddau ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd (2015-16 a 2017-18) ac i sefydlu cynllun tymor canolig integredig (CTCI) cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2017-18 hyd 2019-20.

6 Cafwyd amryw o ddatblygiadau ers ein hadroddiad y llynedd. Ym mis Mawrth 2018, dynodwyd yr Ymddiriedolaeth yn ganolfan gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer buddsoddi mewn iechyd a llesiant. Bydd y ganolfan gydweithredol yn datblygu, yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth newydd am y ffyrdd gorau o fuddsoddi er mwyn gwella iechyd, lleihau anghydraddoldeb ac adeiladu cymunedau cryfach yng Nghymru, Ewrop ac yn Fyd-eang yn rhan o raglen waith pedair blynedd gyda'r WHO.

7 Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth, Gweithio i Gyflawni Dyfodol Iachach i Gymru. Derbyniodd hefyd ganfyddiadau a chasgliadau allweddol o adolygiad cymheiriaid Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol o effeithiolrwydd yr Ymddiriedolaeth, a gynhaliwyd yn nhymor yr hydref 2017. Canfu'r adolygwyr cymheiriaid fod yr

[1] Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys pum cyfarwyddwr gweithredol, dau aelod cysylltiol - hy, dim hawliau pleidleisio, a dau gyfarwyddwr anweithredol.

Ymddiriedolaeth yn arddangos effeithiolrwydd wrth gyflawni ei diben craidd, ond nodwyd meysydd i'w gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymdrin â llawer o'r materion a godwyd gan yr adolygwyr cymheiriaid drwy ei strategaeth hirdymor ac yn paratoi cynllun gweithredu i ymdrin â'r agweddau sy'n weddill.

# Y prif gasgliadau

8 **Mae trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda ar y cyfan, ond gallai wella ansawdd ac ehangder yr wybodaeth a gyflwynir gerbron y Bwrdd**.

9 Rhoddir ystyriaeth fanylach yn yr adrannau canlynol i'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn.

## Llywodraethu

10 Fel yn y blynyddoedd cynt, archwiliwyd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn rhan o'r gwaith ar gyfer ein hasesiad strwythuredig. Rydym yn cynnig sylwadau ar y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes, a'r graddau y mae strwythurau trefniadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Rydym hefyd yn edrych ar yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn eu derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion y sefydliad. Rydym wedi defnyddio canlyniadau ein harolwg o aelodau'r bwrdd er mwyn helpu i ddeall enghreifftiau lle mae pethau'n gweithio'n dda, ac enghreifftiau lle gellid cryfhau'r trefniadau.

11 Gwelsom fod yr **Ymddiriedolaeth yn cael ei harwain a'i llywodraethu'n dda ar y cyfan, ond y gallai wella ehangder yr wybodaeth a gyflwynir gerbron y Bwrdd.**

### Gweinyddu busnes yn effeithiol

12 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn ei drefnu ei hun er mwyn helpu i weinyddu busnes yn effeithiol. Gwelsom fod **y Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol, ond bod rhai heriau parhaus yn gysylltiedig â recriwtio cyfarwyddwyr anweithredol**.

13 Ceir mwy o bwyslais eleni ar sicrhau bod gan y Bwrdd amser i ganolbwyntio ar bennu'r cyfeiriad strategol, datblygu naws a diwylliant y sefydliad a sicrhau rheolaeth briodol ar berfformiad. Ceir ymagwedd dda at gylch y Bwrdd a busnes y pwyllgorau, gyda chynlluniau gwaith blynyddol yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â Chadeirydd, Prif Weithredwr, ac Is-gadeiryddion Pwyllgor yr Ymddiriedolaeth a chyfarwyddwyr gweithredol arweiniol eraill sy'n berthnasol.

14 Ceir trefniadau da i weinyddu cyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgorau. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar amser ac yn caniatáu trafodaeth a her ddigonol. Ceir llif da o sicrwydd a risgiau rhwng pwyllgorau a'r Bwrdd ac mae digon o amser ar gael yng nghyfarfodydd y bwrdd i gadeiryddion pwyllgor gael cyflwyno materion sy'n codi. Lle bo'n briodol, bydd y Bwrdd yn dirprwyo trefniadau trosolwg a chraffu i'w bwyllgorau, er enghraifft gan ofyn i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Trefniadol edrych yn fanwl ar wybodaeth am absenoldeb salwch a throsiant staff.

15 Gofynnwyd i aelodau'r bwrdd ynghylch y modd y caiff cyfarfodydd bwrdd eu cynnal. Yn ein harolwg, canfuom fod:

- Teimlai 8 o'r 9 o aelodau (89%) fod digon o amser gan amlaf neu bob amser i ystyried yr holl eitemau ar yr agenda (cyfartaledd Cymru oedd 71%);

- Teimlai 8 o'r 9 (89%) o aelodau fod yr agenda gan amlaf neu bob amser o hyd ymarferol (cyfartaledd Cymru oedd 74%);
- Teimlai 6 o'r 9 (67%) o aelodau fod yr agenda gan amlaf neu bob amser wedi'i threfnu fel bod yr eitemau pwysicaf yn ymddangos yn gyntaf (cyfartaledd Cymru oedd 58%); a
- Theimlai 7 o'r 9 (77%) o'r aelodau eu bod bob amser neu gan amlaf yn hyderus yn eu gallu i graffu a gofyn cwestiynau'n effeithiol (cyfartaledd Cymru oedd 91%).

16 Y llynedd, roedd gwaith yn parhau i greu canllawiau ar gyfer paratoi papurau bwrdd a phwyllgorau er mwyn sicrhau bod eu hansawdd a'u harddull yn briodol, ac er mwyn helpu aelodau bwrdd i ddod i benderfyniad. Ym mis Mai 2018, cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith penderfynu a ddatblygwyd ar y cyd gan aelodau'r bwrdd. Mae'r fframwaith yn gweithredu fel canllaw i dai sy'n datblygu cynigion lle mae angen penderfyniad gan y bwrdd, a'r meini prawf y dylai aelodau bwrdd eu hystyried wrth benderfynu cymeradwyo cynigion. Dylai unrhyw gynnig, er enghraifft, fod yn gyson â blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth a'r awydd am risg ar gyfer y flaenoriaeth honno.

17 Mae gwaith yn parhau i ddatblygu canllawiau ar lefel y dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos bod agweddau moesegol wedi'u hystyried, neu fod asesiad effaith cydraddoldeb ac iechyd wedi'u cwblhau. Yn ogystal â hyn, mae gan bob papur bwrdd neu bwyllgor noddwr gweithredol, a fydd yn adolygu ac yn cymeradwyo bod y papur yn dderbyniol yn nhermau ansawdd ac arddull. Bydd papurau'r bwrdd a'r pwyllgorau hefyd yn cael eu trafod yng nghyfarfod busnes tîm y weithrediaeth cyn eu cylchredeg yn ehangach.

18 Rydym wedi gweld aelodau bwrdd yn cael eu hatgoffa bod y fframwaith penderfynu ar gael i lywio penderfyniadau a geisir, ond ni allwn gynnig sylwadau ynghylch effaith y fframwaith hwnnw ar benderfyniadau. Mae Is-adran Ymchwil yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn gwerthuso'r fframwaith penderfynu drwy adolygu penderfyniadau blaenorol y bwrdd i asesu i ba raddau y mae penderfyniadau'n gyson â'r meini prawf yn y fframwaith.

19 Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella gwaith i gofnodi prosesau llywodraethu yn rhan o raglen waith gynlluniedig. Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2018, cymeradwyodd y Bwrdd ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo. Cafodd Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth eu hadolygu ddiwethaf yn 2014 yn unol â'r fersiwn ddiwygiedig o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog enghreifftiol ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd ar y pryd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu diwygio'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn unol â gwaith cenedlaethol parhaus. Cafodd polisïau a gweithdrefnau ar gyfer datgan buddiant, rhoddion a lletygarwch hefyd eu diwygio pan ganfu Archwilwyr Mewnol nad oedd yr holl staff fu'n ymwneud â'r broses gaffael wedi datgan buddiannau personol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi targedu'r holl lofnodwyr perthnasol sy'n awdurdodi trafodion ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac i ddatgan unrhyw fuddiannau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu fersiwn hawdd ei darllen o'r Polisi Datgan Buddiant, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd yn rhan o'r gwaith i ailwampio ei thudalennau llywodraethu ar y fewnrwyd.

20 Y llynedd, roedd pwysau cynyddol i lenwi swyddi gwag anweithredol. Ymunodd dau gyfarwyddwr anweithredol â'r Bwrdd drwy drefniant rhannu swydd ym mis Ebrill 2018. Mae dwy swydd wag yn parhau ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol, ac mae recriwtio yn parhau i fod yn anodd. Yn y cyfamser, mae trefniadau ar waith i gynyddu capasiti yn y tymor byr. Bu'r Bwrdd yn adolygu ac yn diwygio holl gylchoedd gorchwyl y pwyllgorau. Gostyngwyd yr isafswm o aelodau pwyllgor (cyfarwyddwr anweithredol) a'r cworwm ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn unol ag isafswm y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Corfforaethol a'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Trefniadol. Dylai'r newidiadau hyn fod o gymorth i sicrhau bod modd ymdopi â'r llwyth gwaith, a lleihau nifer y cyfarfodydd y bydd yn rhaid i unigolion eu mynychu.

21 Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i fod yn ymrwymedig i adolygu eu heffeithiolrwydd, ac mae cylch o hunanasesiadau rheolaidd wedi'i gynnwys mewn cynlluniau gwaith blynyddol. Ymddengys fod prinder capasiti o fewn ysgrifenyddiaeth y bwrdd dros yr haf wedi effeithio ar fynychder adroddiadau yn erbyn cynlluniau gweithredu i ymdrin â'r gwelliannau a nodwyd. Ni wireddwyd cynlluniau i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Trefniadol adolygu ei effeithiolrwydd yn fuan yn 2018, ac mae'r adolygiad hwnnw bellach wedi'i drefnu ar gyfer yr hydref pan fydd Cadeirydd Pwyllgor newydd yn cymryd yr awenau. Bu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn adolygu ei effeithiolrwydd ym mis Mawrth 2018. Roedd aelodau'r pwyllgor i fod i ystyried y canfyddiadau mewn gweithdy anffurfiol, a chreu cynllun gweithredu os oedd angen. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiadau na chynllun gweithredu wedi cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor hyd yma.

22 Nododd y Bwrdd yr angen i gynyddu ei amlygrwydd ymhlith y staff, ac mae'n gwneud cynnydd rhesymol yn hynny o beth. Bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn teithio'n rheolaidd i gwrdd â'r staff ond mae'n fwy heriol i gyfarwyddwyr anweithredol eraill wneud hynny, oherwydd y pwysau ar amser yn sgil y swyddi sydd yn dal i fod yn wag. Mae'r Cadeirydd hefyd yn llunio neges fisol i'r staff tra bo tîm y weithrediaeth yn llunio neges wythnosol, ac o fis Mawrth 2018, dechreuodd yr Ymddiriedolaeth ffrydio cyfarfodydd y bwrdd dros y rhyngrwyd.

23 Nododd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella fod angen cyrsiau cynefino a datblygu gwybodaeth ar gyfer pwyllgorau penodol, a bod y llwyth gwaith yn tyfu. Dylai cynlluniau i sefydlu pwyllgor newydd yn fuan yn 2019 (gweler paragraff 51) fod o gymorth i ymdrin â phryderon y Pwyllgor ynghylch ei lwyth gwaith cynyddol. Nododd y Pwyllgor hefyd ei bod hi'n bosibl nad oedd ganddo olwg o'r holl faterion yn gysylltiedig ag ansawdd a diogelwch, a bod cyfleoedd i wella'r ymagwedd at hanesion defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig i'w halinio â blaenoriaethau strategol. Cynigiwyd adolygiad er mwyn canfod bylchau mewn sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch ym mhob maes, ac i ystyried achosion posib o orgyffwrdd â Phwyllgorau eraill, tra bod rhaglen o hanesion defnyddwyr gwasanaeth yn gysylltiedig â blaenoriaethau strategol yn cael ei chynllunio. Nid yw'n glir gynhaliwyd yr adolygiad a gynigiwyd mewn gwirionedd, nac a yw hanesion defnyddwyr gwasanaeth wedi'u halinio'n well â blaenoriaethau strategol. Ni roddwyd unrhyw ddiweddariad i olrhain cynnydd cyn yr hunanasesiad nesaf a gynlluniwyd ar gyfer dechrau 2019. Fodd bynnag, mae hanesion defnyddwyr gwasanaeth bellach yn gysylltiedig ag eitemau penodol ar agendâu Pwyllgor er mwyn creu safbwynt llawnach ynghylch y thema neu'r testun a drafodir. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd yn teimlo'n hyderus wrth ofyn am sicrwydd ynghylch canlyniadau ansawdd a gwasanaethau. Er enghraifft, gofynnodd y Pwyllgor am gael cynnwys gwybodaeth am ansawdd, cynnydd a chanlyniadau gweithgarwch yn yr adroddiadau nesaf ar y Rhaglen 1000 o Fywydau.

24 Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael a'r cwrs cynefino a datblygu gwybodaeth ar gyfer pwyllgorau penodol yn rhan o raglen ehangach i ddatblygu'r bwrdd, y mae'r tîm Pobl a Datblygu Trefniadol yn ei threfnu. Yn ogystal â hynny, mae arbenigwyr wedi cael eu comisiynu i gynorthwyo cadeiryddion pwyllgor i gyflawni eu rôl yn well wrth roi sicrwydd i'r Bwrdd a rhoi cyngor strategol annibynnol i aelodau bwrdd, yn enwedig ym maes rheoli ariannol.

## Rheoli risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol

25 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn rhoi sicrwydd iddo ei hun fod risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol wedi'u rheoli'n dda. Gwelsom fod gan **yr Ymddiriedolaeth fframwaith sicrwydd bwrdd sydd wedi'i ddatblygu'n dda, ac a gefnogir gan system rheoli risg effeithiol.**

26 Mae fframwaith sicrwydd bwrdd (FfSB) yr Ymddiriedolaeth wedi'i ymwreiddio'n gadarn fel un o offerynnau busnes y bwrdd. Adolygwyd fformat FfSB eleni mewn ymgynghoriad ag aelodau'r bwrdd. Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth hirdymor a'r cynllun tymor canolig integredig (CTCI), aeth y Bwrdd ati i ailwerthuso'r risgiau i gyflawni ei flaenoriaethau strategol. Nodir y rheolaethau allweddol a'r ffynonellau sicrwydd, ynghyd â chamau lliniarol, yn FfSB. Caiff risgiau gweithredol a chamau lliniarol eu rheoli ar raddfa'r gyfarwyddiaeth a'r is-adran. Roedd yr holl aelodau bwrdd a ymatebai i'n harolwg naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn ymwneud â nodi'r risgiau strategol, o gymharu â 91% o aelodau bwrdd ledled Cymru.

27 Neilltuir noddwr gweithredol ar gyfer pob risg strategol, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r camau lliniarol a nodir yn FfSB ac am roi sicrwydd priodol i'r Bwrdd neu'r pwyllgorau. Mae tîm y weithrediaeth yn adolygu'r FfSB bob deufis yn barod am gyfarfodydd y bwrdd. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn FfSB ym mhob cyfarfod a bydd y pwyllgor sy'n rhoi sicrwydd yn derbyn adrannau perthnasol FfSB yn y cyfarfod perthnasol. Ar adeg ein harchwiliad, roedd dwy o'r saith risg strategol (risgiau 5 a 7) yn dal heb eu neilltuo i bwyllgor sicrwydd. Y llynedd, roeddem yn beirniadu'r ffaith mai ychydig o amser, yn ôl pob golwg, oed yn cael ei neilltuo ar agenda pwyllgorau er mwyn craffu ar FfSB. O adolygu agendâu cyfarfodydd ac arsylwi cyfarfodydd pwyllgor, gwelir bod mwy o amser bellach yn cael ei neilltuo a'i ddefnyddio ar gyfer hyn. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yn rhoi'r flaenoriaeth i adolygu FfSB ar ddechrau ei gyfarfod. Canfu hunanasesiad y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant hefyd fod yr aelodau'n fodlon bod yr wybodaeth am risg yn ddigonol a bod adroddiadau'n rhoi gwybodaeth glir a chadarn a oedd o ansawdd digonol.

28 Gofynnwyd i aelodau bwrdd i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â sawl datganiad ynghylch rheoli risgiau strategol. Dengys canfyddiadau'r arolwg:

- fod yr holl aelodau bwrdd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y risgiau i gyflawni amcanion strategol a'r modd y mae'r risgiau hynny'n cael eu rheoli (cyfartaledd Cymru 91%);
- roedd yr holl aelodau bwrdd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd yn galluogi aelodau i graffu'n effeithiol ar gamau a gymerwyd i liniaru risgiau (cyfartaledd Cymru oedd 77%) ac
- roedd yr holl aelodau bwrdd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod ganddynt ddealltwriaeth glir ynghylch y modd y caiff risgiau eu rheoli a'u huwchgyfeirio i'r Bwrdd a'r pwyllgorau (cyfartaledd Cymru oedd 86%).

29 Y llynedd roedd trafodaethau ar y gweill i ddiffinio awydd y sefydliad am risg. Cytunodd y Bwrdd ar yr awydd am risg ar gyfer pob blaenoriaeth strategol ar un o bum lefel, o 'awyddus' lle bydd yn derbyn risgiau i gyflawni amcanion heriol hyd at 'osgoi risg' lle bydd yn ceisio lleihau risgiau hyd yr eithaf. Gyda'i gilydd, mae'r awydd unigol am risgiau yn ffurfio'r datganiad risg blynyddol, a nodwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn ei chynllun blynyddol. Oddi mewn i bob blaenoriaeth strategol, ceir amcanion strategol penodol lle gallai'r awydd am risg ar lefel weithredol amrywio. Mae'r weithdrefn rheoli risg newydd hefyd yn cyfleu'n glir y dylai risgiau ar raddfa gorfforaethol, cyfarwyddiaeth ac is-adran fod yn gyson â'r datganiad blynyddol o'r awydd am risg. Ym mis Mawrth 2018, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol y

weithdrefn rheoli risg ddiwygiedig, sydd yn adlewyrchu'r broses newydd ar gyfer cyhoeddi'r datganiad blynyddol ynghylch yr awydd am risg.

30 Mae system rheoli risg yr Ymddiriedolaeth wedi'i hen sefydlu. Y llynedd, roedd y Prif Swyddog Risg yn datblygu matrics aeddfedrwydd risg yn seiliedig ar ofynion y safon rheoli risg ryngwladol ISO31000. Mae'r matrics aeddfedrwydd risg bellach ar waith, ac yn defnyddio graddfa o un i bump [2] i asesu'r system rheoli risg. Cynhaliodd y Prif Swyddog Risg hunanasesiad peilot yn ystod yr haf a chanfod fod y system rheoli risg 'yn datblygu' ar y cyfan. Hynny yw, yr oedd yn bodloni gofynion ISO31000 ar y cyfan. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i gyfarwyddiaethau hunanasesu yn erbyn chwe maen prawf allweddol ym mholisi a gweithdrefn rheoli risg yr Ymddiriedolaeth drwy ddefnyddio'r un sgôr ar gyfer graddio risg. Mae'r chwe maen prawf yn trafod: nodi a chyfleu risgiau; dyrannu risgiau i berchnogion; defnyddio Datix i gofnodi a thracio risg; llunio ac adolygu cofrestrau risg; gwneud penderfyniadau ynghylch sut i reoli risgiau a nodir; a chreu cynlluniau gweithredu i leihau risg. Ar adeg ein harchwiliad, roedd tîm y weithrediaeth yn dal heb benderfynu a ddylid mabwysiadu'r matrics aeddfedrwydd a'r dangosfyrddau cyfarwyddiaeth ar sail yr hunanasesiad yn erbyn y chwe maen prawf. O'i fabwysiadu, byddai'r matrics yn cael ei ddefnyddio fel offeryn hunanasesu i lunio adroddiad blynyddol i dîm y weithrediaeth ar effeithiolrwydd y system rheoli risg.

## Ymwreiddio system gadarn ar gyfer sicrwydd

31 Buom hefyd yn archwilio a oes gan yr Ymddiriedolaeth system effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol i gefnogi sicrwydd y bwrdd. Gwelsom fod system **sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ar y cyfan, ond bod lle o hyd i wella'r wybodaeth a adroddir wrth y Bwrdd am hyd a lled y gwaith a gyflawnir gan yr Ymddiriedolaeth**.

32 Mae system yr Ymddiriedolaeth ar gyfer diweddaru polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad cyfan yn parhau i weithio'n dda. Mae'r tîm llywodraethu corfforaethol yn parhau i gadw Cofrestr o Bolisïau a Dogfennau Rheolaeth Ysgrifenedig, a gyflwynir ganddo'n flynyddol gerbron y Bwrdd a bob chwe mis gerbron y pwyllgorau. Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal o'r holl bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad adolygu neu sydd 'yn destun adolygiad'. Yr arweinydd a enwebwyd ar gyfer y polisi fydd yn cynnal yr asesiad hwnnw, a rhennir y canlyniadau â'r pwyllgor priodol sy'n eu cymeradwyo. Ar hyn o bryd, mae 61% o bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad cyfan yn gyfredol - hynny yw, nid ydynt wedi mynd heibio'r dyddiad adolygu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn anelu i gynyddu'r gyfran hon i 75% cyn diwedd mis Mawrth 2019, a bydd yn monitro hynny fel un o'r dangosyddion ansawdd ac effaith cytunedig (gweler paragraff 48).

33 Mae dull y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol o dracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewnol ac allanol yn parhau i weithio'n dda. Ystyrir cynnydd yn erbyn argymhellion ym mhob cyfarfod, a bydd cyflymder y cynnydd yn cael ei herio yn rheolaidd. Bydd y Pwyllgor yn gofyn am adroddiadau manwl cyfnodol, fel adroddiadau ar gynnydd yn erbyn camau sy'n weddill yn gysylltiedig â'n hadolygiad o'r contract ar gyfer meddygon ymgynghorol. Oherwydd yr amser sy'n mynd heibio rhwng cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn parhau i bwysleisio'r angen am ddiweddariadau amserol er mwyn osgoi bylchau yn sicrwydd y bwrdd. Bydd hefyd yn derbyn adroddiadau misol lle bo'n briodol, fel yr adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y materion a amlygwyd yn ein hadolygiad o'r trefniadau cydweithredol ar gyfer adnoddau iechyd cyhoeddus lleol. Mae gan y Bwrdd a'r pwyllgorau hefyd gofnodion wedi'u hen sefydlu o

[2] Y sgoriau yw: anfoddhaol, elfennol, datblygol, uwch ac enghreifftiol.

benderfyniadau er mwyn nodi'r camau cytunedig sy'n deillio o gyfarfodydd ynghyd â'r newyddion diweddaraf am y penderfyniadau a gyflwynir mewn cyfarfodydd dilynol.

34 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau a gwella trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau fel bônt yn briodol ac ym mis Hydref 2018, cymeradwyodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant y dylid mabwysiadu polisïau Cymru gyfan ynghylch gwybodaeth a llywodraethu a diogelwch gwybodaeth. Caiff risgiau llywodraethu gwybodaeth a TG eu huwchgyfeirio a'u hisgyfeirio yn unol â pholisi a gweithdrefnau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth. Mae perchnogion wedi'u pennu ar gyfer yr holl risgiau llywodraethu gwybodaeth a TG, ac mae cynlluniau gweithredu wedi'u creu i'w lliniaru. Bydd y Gofrestr Risg Llywodraethu Gwybodaeth hefyd yn cael ei chyflwyno i dîm y weithrediaeth ac i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant bob chwarter.

35 Gwelir gwelliant parhaus yn hunanasesiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth, sy'n defnyddio pecyn Egwyddorion Caldicott ar Waith. Cododd sgôr yr hunanasesiad o 94% yn 2017 i 96% yn 2018. Mae'r gyfradd ar gyfer cydymffurfio â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth hefyd wedi gwella gan gyrraedd 89% erbyn hyn, nad yw ymhell oddi wrth y targed cenedlaethol o 95%. Ar draws cyfarwyddiaethau, mae'r gyfradd gydymffurfio yn amrywio rhwng 85% a 97%.

36 Mae Cofrestr Asedau Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth bellach yn offeryn gweithredol a deinamig, gydag asedau gwybodaeth yn cael eu hychwanegu a'u hepgor fel bo'r angen. Mae'r penawdau ar y Gofrestr Asedau yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd gan berchnogion asedau gwybodaeth. Mae'r staff y buom yn cyfarfod â hwy yn hyderus bod asedau data lle gellir adnabod yr unigolyn yn cael eu casglu, ond mae gwaith i ddiffinio asedau data amhersonol yn parhau. Dynodir perchnogion asedau gwybodaeth fesul achos, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu rhaglen hyfforddiant r gyfer perchnogion asedau gwybodaeth. Mae rheolaethau ar waith i gyfyngu ar rai a all gyflwyno newidiadau i'r Gofrestr, tra bo gwaith yn parhau i fapio llif data a sicrhau bod methiannau tyngedfennol yn cael eu mapio.

37 Yn gynharach eleni, cynhaliwyd adolygiad allanol o drefniadau llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth yn yr Ymddiriedolaeth yn rhan o raglen waith ehangach ar draws GIG Cymru. Roedd yr adolygiad yn cynnwys asesiad o Cyber Essentials, dadansoddiad o fylchau yn erbyn y safon diogelwch gwybodaeth ryngwladol ISO27001, parodrwydd am Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol, parodrwydd am y Gyfarwyddeb Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth a chyflunio'r wefan. Nododd yr adolygwyr rai meysydd i'w gwella, yn enwedig mewn perthynas ag ISO27001. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymdrin â'r gwelliannau sydd eu hangen i gryfhau trefniadau diogelwch gwybodaeth, ac mae cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Dirprwy Brif Weithredwr sydd yn gyfrifol am wybodeg, y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid sy'n gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Phroffesiynau perthynol i Iechyd sydd yn gyfrifol am ddiogelwch gwybodaeth.

38 Dengys ein hadolygiad o bapurau Bwrdd a phwyllgor nad oedd y Bwrdd na'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant (na'r Gweithgor Llywodraethu Gwybodaeth gweithredol sy'n adrodd i'r Pwyllgor) wedi ystyried canfyddiadau'r adolygiad allanol, ar wahân i un eithriad, parodrwydd am RhDDC. Derbyniodd y Bwrdd y canfyddiadau yn gysylltiedig â pharodrwydd am RhDDC yn ei gyfarfod ym mis Mai 2018. Dangosai'r canfyddiadau fod yr Ymddiriedolaeth wedi cydymffurfio'n llawn â hanner y gofynion, ar sail y meini prawf asesu, ac erbyn cyfarfod y bwrdd ym mis Mai, dim ond ambell agwedd a oedd ar ôl i'w datrys er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn, ac roedd gwaith yn parhau i'r perwyl hwnnw.

39 Er gwaethaf y cynnydd da a wnaed a'r oruchwyliaeth gan y cyfarwyddwyr gweithredol, ni chafodd argymhellion yr aseswyr allanol eu hystyried gan y Bwrdd na'i bwyllgorau yn yr un modd â'r argymhellion a ddeilliai o adolygiadau allanol neu adolygiadau cymheiriaid eraill. Efallai y bydd cyfleoedd i sicrhau dull cyson o reoli argymhellion allanol.

40 Canfu'r aseswyr allanol hefyd nad oedd rôl y Swyddog Diogelu Data (SDD) wedi'i nodi ym mholisi llywodraethu gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth, canfyddiad a adroddwyd gennym ni hefyd y llynedd. Bryd hynny, roedd yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu diweddaru ei bolisi wrth gyhoeddi'r fersiwn nesaf ohono, tra bo'r Grŵp Cynghori Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth cenedlaethol yn trafod a ellid cytuno ar ddull cyson ar draws cyrff y GIG. Ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu polisïau llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth Cymru gyfan, ond nid yw yr un o'r ddau bolisi yn nodi rôl y SDD, gan nodi'n syml y bydd cyfrifoldebau penodol yn cael eu dirprwyo i'r SDD. Dengys y canfyddiadau RhDDC a gyflwynwyd yng nghyfarfod bwrdd mis Mai 2018 fod gan yr Ymddiriedolaeth polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer ymdrin â data personol, ond bod y dogfennau hynny'n dal heb gyfeirio at y Swyddog Diogelu Data. Gellir gweld dynodiad y SDD yn glir yn yr hysbysiad preifatrwydd ar wefan yr Ymddiriedolaeth, ac mewn dogfennau mewnol sy'n nodi strwythur y tîm llywodraethu risg a gwybodaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod yn dal angen iddi nodi rôl a llinellau atebolrwydd y SDD yn ei strwythurau llywodraethu gwybodaeth, ac mae'n bwriadu cyflwyno papur i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth newydd.

41 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu lefel y gweithgarwch yn gysylltiedig â seiberddiogelwch, ac am y tro cyntaf eleni mae seiberddiogelwch wedi'i nodi fel risg strategol a'i gofnodi ar fframwaith sicrwydd y bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu i sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith i liniaru risgiau ochr yn ochr â gwaith parhaus i ymdrin â'r argymhellion o'r dadansoddiad o fylchau yn erbyn ISO27001. Mae risgiau diogelwch gwybodaeth yn parhau i gael eu rheoli oddi mewn i'r Polisi Rheoli Risg cyffredinol, ac mae'r weithdrefn ar gyfer rheoli digwyddiadau gwybodaeth wedi cael ei diwygio. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gwneud cynnydd da wrth ymdrin ag argymhellion Archwilio Mewnol ynghylch seiberddiogelwch, gan ymdrin yn llawn â saith o'r wyth o argymhellion. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cryfhau ei chapasiti a'i gallu ym maes seiberddiogelwch drwy recriwtio arbenigwr, a ddaeth i'w swydd ym mis Hydref 2018.

42 Casglodd y Bwrdd y llynedd fod yr wybodaeth y mae'n ei derbyn yn dderbyniol, ond bod potensial i'w gwella. Mae gwaith yn parhau i fapio ffynonellau sicrwydd ac i sicrhau bod yr wybodaeth gywir ar gael. Yn ein harolwg, gofynnwyd am safbwyntiau aelodau'r bwrdd ynghylch a oedd cytundeb ynghylch yr wybodaeth yr oedd ei hangen ar gyfer gwaith trosolwg a chraffu effeithiol, ac ynghylch lefel eu hyder yn yr wybodaeth a gawsant. Nododd y rhan fwyaf (89%) o aelodau'r bwrdd a ymatebodd i'n harolwg fod y Bwrdd wedi cytuno ar yr wybodaeth yr oedd arno ei hangen, o gymharu â 79% ledled Cymru. At ei gilydd, roedd aelodau'r bwrdd yn hyderus ynghylch ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth a gafwyd, ac o'r farn fod yr wybodaeth honno'n cynnig sail ddigonol i wneud penderfyniadau a chefnogi gwaith craffu effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd holl aelodau'r bwrdd yn hyderus bod yr wybodaeth yr oeddent wedi'i derbyn yn trafod hyd a lled busnes neu faterion strategol y sefydliad.

43 Rydym wedi beirniadu Fframwaith Cyflawni'r CTCI am nad yw'n cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer elfennau pwysig ym musnes yr Ymddiriedolaeth. Gwnaethom argymell y dylid datblygu mesurau realistig er mwyn sicrhau bod y bwrdd yn craffu yr un mor fanwl ar yr holl weithgareddau busnes. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn erbyn Fframwaith Cyflawni CTCI yr Ymddiriedolaeth wedi parhau yr un peth i raddau helaeth, er bod dangosyddion ar gyfer gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetes Cymru bellach wedi'u cynnwys. Nid yw'r Fframwaith Cyflawni wedi cael ei ehangu i gynnwys mesurau sy'n trafod busnes yr Ymddiriedolaeth yn ei gyfanrwydd. Yn lle hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar fesur cyflawniad

cynnyrch allweddol yn erbyn y cerrig milltir a bennwyd yn y cynllun blynyddol. Mae rhai mathau o gynnyrch (allbynnau a gweithrediadau) yn gysylltiedig â gweithgarwch mewn meysydd nad ydynt yn cael eu trafod ar hyn o bryd yn y Fframwaith Cyflawni, ond nid ydynt yn gysylltiedig â mesurau perfformiad, ansawdd nac effaith.

44 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yn parhau i dderbyn gwybodaeth am rai agweddau ar fusnes yr Ymddiriedolaeth nad ydynt wedi'u cynnwys yn Fframwaith Cyflawni'r CTCI, fel Ymchwil a Datblygu, y Rhaglen Gwella 1,000 o Fywydau, ac yn fwyaf diweddar, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd. Yng nghynllun gwaith blynyddol y Pwyllgor, nodir y bydd yn derbyn gwybodaeth am feysydd gwaith eraill ac am raglenni cenedlaethol cyn hir. Mae cynllun gwaith y Bwrdd hefyd yn dangos ei fod wedi, neu y bydd, yn deryn adroddiadau tebyg yn y dyfodol. Mae'r datblygiadau hyn yn gam cadarnhaol ond yn rhan o'r gwaith o fapio sicrwydd mae angen i'r Bwrdd benderfynu pa wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr agweddau hynny ar fusnes nad ydynt wedi'u cynnwys yn Fframwaith Cyflawni'r CTCI ar hyn o bryd, neu wedi'u trafod yn yr adroddiad perfformiad integredig.

45 Mae'r papurau cyflwyno sy'n cyd-fynd â phapurau'r bwrdd a phwyllgorau, gan gynnwys yr adroddiad perfformiad integredig, bellach yn cynnwys trawsgyfeiriad i'r blaenoriaethau strategol a'r amcanion llesiant perthnasol. Mae'r papurau cyflwyno hefyd yn rhoi dadansoddiad cryno lefel uchel ynghylch asesiadau effaith cydraddoldeb ac iechyd, risg a sicrwydd, safonau iechyd a gofal, goblygiadau ariannol a goblygiadau o ran pobl, er bod y manylion sydd wedi'u cynnwys yn amrywio'n sylweddol.

46 Mae adroddiad perfformiad integredig yr Ymddiriedolaeth yn parhau i dynnu sylw'r Bwrdd at faterion allweddol yn gysylltiedig â thanberfformio. Mae'r dangosfyrddau yn parhau i ddangos perfformiad yn erbyn trywyddau a gynlluniwyd a defnyddir system CAG (coch, ambr, gwyrdd) i nodi amrywiant yn erbyn y targed. Mae'r data ar dueddiadau yn dangos perfformiad dros y 12 mis blaenorol a chrynodeb o berfformiad a'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin ag agweddau lle ceir tanberfformio.

47 Dros y flwyddyn ddwy ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu sawl ffrwd waith i ddangos ansawdd ac effaith ei waith yn rhan o'i threfniadau ehangach ar gyfer llywodraethu ansawdd. Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth y 'prosiect mesur gwerth ac effaith' er mwyn diffinio'r hyn y mae gofal iechyd sy'n seiliedig ar egwyddorion yn ei olygu i'r sefydliad, gyda'r gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar y defnydd o adnoddau er mwyn sicrhau gwerth ac effaith. Bydd y prosiect mesur gwerth ac effaith yn cael ei ymgorffori yng ngwaith gwerthuso ehangach yr Ymddiriedolaeth. Er bod amrywiaeth o weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn cael eu gwerthuso, gwelodd yr Ymddiriedolaeth fod prinder dealltwriaeth ynghylch pam bod rhai mathau o weithgareddau yn cael eu gwerthuso ac eraill ddim, ansawdd y gwerthusiadau a gynhelir, y graddau y mae gwerthusiadau yn canolbwyntio ar ganlyniadau neu effeithiolrwydd ymyraethau ac a yw'r hyn a ddysgir yn sgil gwerthuso yn cael ei rannu. Mae papur wedi cael ei baratoi sy'n cynnwys cynigion i gryfhau gweithgarwch gwerthuso, a dywedwyd wrthym fod yr Ymddiriedolaeth yn disgwyl penderfyniad gan dîm y weithrediaeth.

48 Daeth gwaith i ddatblygu dangosyddion ansawdd ac effaith i ben yn gynharach eleni. Cafodd dros 100 o ddangosyddion ansawdd ac effaith (yn canolbwyntio ar ddiogelwch, effeithiolrwydd, adborth, arweinyddiaeth a diwylliant) eu datblygu mewn partneriaeth â staff ar lefel is-adran a chyfarwyddiaeth. Nodwyd dau ddeg chwech o ddangosyddion yn briodol i'w hadrodd ar lefel gorfforaethol, ac fe'u cyflwynwyd i'w cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2018. Ystyriwyd bod y dangosyddion a oedd yn weddill yn rhy weithredol, a byddant yn cael eu monitro ar lefel cyfarwyddiaeth. Ar adeg ein harchwiliad, roedd gwaith ar y gweill i ymgorffori'r 26 o ddangosyddion yn adran ansawdd yr adroddiad perfformiad integredig, ac roedd disgwyl i gyfarwyddiaethau gasglu dangosyddion perthnasol ar lefel gorfforaethol, ac

adrodd amdanynt bob chwarter. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu a mireinio'r dangosyddion ansawdd ac effaith yn flynyddol; mae'r adolygiad cyntaf wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd mis Mawrth 2019. Nodwyd bod o leiaf dau o'r dangosyddion gorgyffwrdd â dangosyddion perfformiad sydd eisoes wedi'u cynnwys yn Fframwaith Cyflawni'r CTCI, a bod y targed ar gyfer un ohonynt yn wahanol. Dyma'r dangosyddion sy'n gorgyffwrdd:

- targed Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfran y staff sy'n derbyn brechlyn ffliw yw 65% ond 60% sydd wedi'i nodi fel targed yn Fframwaith Cyflawni'r CTCI; ac
- adrodd am 90% o ddigwyddiadau difrifol cyn pen 24 awr a chwblhau ymchwiliadau cyn pen 60 diwrnod gwaith, ond nodir fel dangosydd yn Fframwaith Cyflawni'r CTCI 90% o ddigwyddiadau difrifol yr oedd angen sicrwydd yn eu cylch, y cafwyd sicrwydd yn eu cylch o fewn graddfeydd amser cytunedig.

Yn dilyn ein harchwiliad, cafodd 15 o'r 26 o ddangosyddion ansawdd ac effaith eu cynnwys yn yr adroddiad perfformiad integredig a dderbyniodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2018.

## Sicrhau bod y dyluniad trefniadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol.

49 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei threfnu ei hun i gefnogi llywodraethu effeithiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau strategol, a sicrhau llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod **strwythurau'r sefydliad a'r pwyllgorau yn newid er mwyn gwella trosolwg a chraffu ar swyddogaethau statudol a chyflawniad blaenoriaethau strategol**.

50 Yn y gorffennol, rydym wedi bod yn feirniadol o'r diffyg gwybodaeth a adroddir wrth y Bwrdd am hyd a lled swyddogaethau a busnes yr Ymddiriedolaeth, a chyflawniad ei blaenoriaethau strategol. Yn sgil penodi Cadeirydd newydd ym mis Medi 2017 a datblygu'r strategaeth hirdymor, ceir bellach yr ysgogiad i gynnal arfarniad beirniadol o drefniadau pwyllgorau a dyluniad y sefydliad.

51 Nododd y Bwrdd fod angen sefydlu Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth i roi cyngor a sicrwydd ynghylch ansawdd ac effaith gweithgarwch gwybodaeth, ymchwil a deallusrwydd iechyd yr Ymddiriedolaeth. Nododd y Bwrdd hefyd fod angen Fforwm Cynghori Technoleg ac Arloesi i roi cyngor ynghylch dulliau newydd o weithio sy'n manteisio a dechnoleg sy'n bodoli eisoes a thechnoleg newydd er mwyn gwella iechyd a llesiant. Disgwylir i'r fforwm gyfarfod ddwywaith y flwyddyn o leiaf ac adrodd wrth y pwyllgor newydd. Bydd y pwyllgor newydd yn cymryd cyfrifoldeb dros lywodraethu ymchwil, ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth, sef cyfrifoldebau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant ar hyn o bryd. Mae Grŵp Ystadegau Swyddogol wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei rôl fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol, ac yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Ystadegau 2018. Bydd y grŵp yn adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant nes sefydlu'r pwyllgor newydd yn fuan yn 2019, pan fydd swyddi'r cyfarwyddwyr anweithredol wedi'u llenwi.

52 Ar adeg ein harchwiliad, roedd yr Ymddiriedolaeth yn ymgynghori â staff ar newidiadau arfaethedig i strwythurau trefniadol sydd i raddau helaeth heb newid ers 2015. Y tro hwn, fel o'r blaen, bu'r Bwrdd yn ystyried y dyluniad gorau posibl ar gyfer y sefydliad er mwyn cyflawni ei strategaeth hirdymor, i ymdrin ag argymhellion yn sgil adolygu'r swyddogaeth gwybodaeth iechyd, a chryfhau goruchwyliaeth ar lefel y bwrdd dros hyd a lled ei amryfal swyddogaethau. Bydd y swyddogaethau tystiolaeth, deallusrwydd iechyd ac ymchwil yn cael eu cyfuno i greu un Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth newydd a bydd cyfarwyddwr ar lefel y bwrdd yn cael ei benodi cyn hir. Bydd Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn datblygu'n

gyfarwyddiaeth annibynnol, a fydd yn cynnwys Is-adran Polisi a Datblygiad Rhyngwladol yr Ymddiriedolaeth.

53 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i ymwreiddio diwylliant o ansawdd a llywodraethu da ym mhopeth a wna. Yn sgil newidiadau o fewn y tîm Llywodraethu Corfforaethol yn ystod haf 2018, cafodd yr Ymddiriedolaeth gyfle i greu model llywodraethu integredig y bydd cyfarwyddwr gweithredol y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gyfrifol amdano. Bydd is-adran llywodraethu newydd o fewn y Gyfarwyddiaeth hon yn cyfuno'r swyddogaeth llywodraethu corfforaethol, sydd ar hyn o bryd yn rhan o Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, gyda threfniadau ansawdd a llywodraethu clinigol, llywodraethu gwybodaeth a rheoli risg. Bydd y cyfrifoldeb dros lywodraethu ymchwil wedi'i gynnwys yn y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth newydd. Bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn datblygu'n Uned Busnes y Bwrdd ac yn cynnig cyngor a chymorth i'r Bwrdd i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau. Budd Uned Busnes y Bwrdd yn cynnwys Ysgrifennydd y Bwrdd, a fydd yn bennaeth ar Uned Busnes y Bwrdd, Rheolwr Busnes y Bwrdd a Swyddog Busnes y Bwrdd. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Uned Busnes yn cydweithio'n agos â'r is-adran llywodraethu er mwyn sicrhau perthynas ddi-dor, llif gwybodaeth a phroses sicrwydd ddi-dor oddi mewn i'r sefydliad ehangach, y Bwrdd a'i bwyllgorau, a rhyngddynt.

## Cynllunio strategol

54 Yn rhan o'n gwaith, buom yn archwilio'r modd y mae'r Bwrdd yn pennu ei amcanion strategol, ac i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio i gyflawni ei amcanion yn unol â'r adnoddau sydd ganddo, neu y gall eu sicrhau. Roeddem hefyd am wybod a yw'r Ymddiriedolaeth yn monitro cynnydd wrth gyflawni'r cynlluniau hyn yn effeithiol.

55 Gwelsom fod **gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith cynllunio cydlynol sydd wedi'i alinio'n dda, a bod newidiadau ar y gweill i adroddiadau ar berfformiad er mwyn cynnal asesiad gwell o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol a'r gwerth a'r effaith a sicrheir**.

### Pennu'r cyfeiriad a datblygu'r cynlluniau

56 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn mynd ati i bennu ei flaenoriaethau mewn ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, yr ymagwedd at gynllunio'n strategol, ac a oes strategaethau a chynlluniau priodol yn sail i'r cynllun strategol. Gwelsom **fod gan yr Ymddiriedolaeth ymagwedd gydlynus at gynllunio strategol, a'i bod yn gweithio i alinio cynlluniau'r gweithlu yn fwy effeithiol**.

57 Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth, Gweithio i Gyflawni Dyfodol Iachach i Gymru. Roedd y teitl yn adlewyrchu yr hyn a ystyrir gan yr Ymddiriedolaeth yn ddiben creiddiol. Ffrwyth gwaith ymgysylltu helaeth â'r staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ystod 2017 yw'r strategaeth. Cymerodd y Bwrdd ran yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth hirdymor drwy sesiynau datblygu, gweithdai a sesiynau briffio rheolaidd. Dywedodd yr holl aelodau bwrdd a ymatebodd i'n harolwg eu bod bob amser neu gan amlaf yn cymryd rhan yn y gwaith o bennu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau strategol.

58 Mae'r strategaeth hirdymor yn pennu saith blaenoriaeth strategol ar gyfer 2018-2030, y canlyniadau a'r effaith y mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl eu sicrhau a'r canlyniadau y mae'n gobeithio dylanwadu arnynt o ran iechyd y cyhoedd. Caiff y saith blaenoriaeth eu hadlewyrchu yn amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth, sydd yn eu tro wedi'u mapio â nodau llesiant Cymru.

59 Mae CTCI (cynllun strategol) yr Ymddiriedolaeth yn pennu'r amcanion sydd yn sail i bob blaenoriaeth strategol a ddylai gael eu cyflawni rhwng 2018 a 2021. Defnyddiwyd gwaith ymgysylltu ehangach ar y cynllun hirdymor hefyd i oleuo'r amcanion hynny. Cymeradwyodd y Bwrdd y CTCI ar 1 Mawrth 2018, ac fe'i cymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mehefin 2018. Ym mis Mai, cymeradwyodd y Bwrdd gynllun blynyddol yr Ymddiriedolaeth, sydd yn seiliedig ar gynlluniau lefel cyfarwyddiaeth. Mae'r cynllun blynyddol yn disgrifio'r cynnyrch allweddol (allbynnau neu weithredoedd) a'r cerrig milltir cysylltiedig y dylid eu cyrraedd neu eu cyflawni fesul mis ym mlwydd yn un y CTCI.

60 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi neu i symud ymlaen â gwaith ar y cyd i wella iechyd a llesiant y boblogaeth. Dyma rai enghreifftiau o'r gweithgarwch ymgysylltu hwn:

- cyfres o gyfarfodydd cyfnodol rhwng Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a swyddogion Llywodraeth Cymru, Gweinidogion ac Ysgrifenyddion y Cabinet er mwyn gallu trafod gwaith a meysydd ffocws cyffredin yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â meysydd portffolio'r swyddogion;
- cyfres o gyfarfodydd rhwng Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a swyddogion cyfatebol o'r byrddau iechyd;
- sesiwn datblygu i'r bwrdd wedi'i dylunio ar y cyd rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a ganolbwyntiai ar y modd y gallai sefydliadau eu halinio eu hunain yn fwy effeithiol er mwyn bwrw ymlaen â gwaith atal; a
- chyfres o weithdai rhwng staff uwch yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus o bob bwrdd iechyd i gytuno ar elfennau craidd proses gynllunio ar y cyd ar gyfer nifer fach o flaenoriaethau iechyd cyhoeddus lle mae angen gweithredu ar y cyd.

61 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fabwysiadu dull cynhwysol o'r gwaelod i fyny o ddatblygu'r CTCI. Eleni, sefydlodd grŵp cynllunio a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r uwch dîm arwain ac arweinwyr busnes y cyfarwyddiaethau. Cafodd cyfres o ddigwyddiadau cynllunio rheolaidd eu cynnal gan dîm cynllunio a pherfformiad yr Ymddiriedolaeth fel bo modd cynllunio ar draws y sefydliad ac atal cyfarwyddiaethau rhag cynllunio mewn seilo. Canolbwyntiai'r digwyddiadau cynllunio ar ddatblygu cynnyrch (allbynnau/gweithrediadau) clir yn gysylltiedig â'r adnoddau sydd ar gael o ran cyllid a'r gweithlu, y gellid eu mesur o ran cyflawniad yn erbyn cerrig milltir. Anogwyd y grŵp cynllunio yn gryf i bennu cerrig milltir realistig drwy gynnwys yr amser y bydd hi'n cymryd i dîm y weithrediaeth neu eraill gymeradwyo cynnyrch.

62 Dywedodd staff a welsom fod cydgynllunio yn creu ymwybyddiaeth well o gyd-gyfraniad cyfarwyddiaethau tuag at gyflawni amcanion strategol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd hi'n cymryd amser i newid y diwylliant cynllunio i ddiwylliant lle mae cynllunio yn weithgarwch parhaus y mae pawb yn cymryd rhan ynddo, yn hytrach na digwyddiad blynyddol a arweinir gan y craidd corfforaethol.

63 Ceir cynllun ariannol cytbwys yn sail ar gyfer y CTCI, sy'n cynnwys dadansoddiad o'r gwariant a gynlluniwyd ar gynlluniau cyfalaf strategol a dewisol, sef cyfanswm o £1.6 miliwn i dalu costau cyfarpar a TG newydd. Er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2018-19, mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau cyfanswm o £2.19 mewn arbedion, a nodwyd cynlluniau arbed ar ddechrau'r flwyddyn. Bydd yr arbedion hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pwysau chwyddiant a phwysau'n gysylltiedig â gwasanaethau penodol, ac yn creu cronfa fuddsoddi dros dro i gefnogi'r newidiadau sy'n ofynnol yn y strategaeth hirdymor. Yn ôl y CTCI, bydd rhan helaeth o'r cyllid a fuddsoddir yn arian sefydlu ac yn gyllid untro, ac ni chaniateir ailfuddsoddi yng nghynlluniau effeithlonrwydd 1% cyfarwyddiaethau unigol nes bo'r holl gynlluniau arbed wedi'u cyflawni.

64 Mae'r tîm cyllid yn parhau i asesu cynlluniau arbed ar sail risg o ran ansicrwydd ynghylch y gallu i gyflawni'r cynlluniau hynny. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael llwyddiant wrth gyflawni arbedion yn y dyfodol, ond eleni y mae wedi cynnwys elfen (25%) ar gyfer tangyflawni yn ei rhagdybiaethau cynllunio ariannol er mwyn sicrhau bod arian wrth gefn ar gyfer unrhyw lithriant, yn enwedig yn achos arbedion risg uchel. Disgwylir y bydd cyfran fawr (63%) o'r arbedion a gynllunnir yn tarddu o newidiadau yn nhrefn y staff, ac ystyrir y rhain yn arbedion risg isel gan y tîm cyllid. Trafodir perfformiad yn erbyn cynlluniau arbed ym mharagraff 95.

65 O'r cyfanswm o arbedion a nodwyd, mae £400,000 (18%) yn gysylltiedig â ffrydiau gwaith effeithlonrwydd sefydliadol i greu buddsoddiad ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Cafodd yr arbedion effeithlonrwydd hyn, yn gysylltiedig â'r gweithlu, caffael, teithio a chynhaliaeth ac ystadau, yn arbedion risg uchel, yn enwedig gan nad oes disgwyl iddynt gael eu sicrhau hyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ar adeg ein harchwiliad, roedd gwaith ar y gweill i gyflawni arbedion effeithlonrwydd sefydliadol (gweler paragraffau 89 a 95).

66 Wrth ddatblygu'r cynllun ariannol, bu'r Ymddiriedolaeth yn adolygu gweithgareddau i greu sail newydd ar gyfer cyllidebau, ac i sicrhau bod yr holl weithgarwch cyfredol a'r gweithgarwch a gynlluniwyd yn gysylltiedig â'i blaenoriaethau strategol. Mae hyn bellach wedi'i ymgorffori yn niweddariadau'r cynllun blynyddol ar lefel y cyfarwyddiaethau er mwyn herio gweithgarwch a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth dda o'i sylfaen gostau. Nid oes un ymagwedd unigol at gynllunio'r galw a'r capasiti gan fod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau, er mai ychydig o'i gweithgareddau sydd yn gallu cael eu prisio'n fanwl fesul uned. Er enghraifft, gallai'r galw fod yn gysylltiedig â thystiolaeth o effeithiolrwydd wrth oleuo polisi iechyd cyhoeddus ac ymyraethau gwella iechyd, neu'r galw am brofion labordy, lle gellir cyfrifo'r gost fesul sbesimen. Ar adeg ein harchwiliad roedd yr Ymddiriedolaeth yn mapio adnoddau i gyd-fynd â blaenoriaethau strategol unigol er mwyn cael dealltwriaeth well o'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu. Cafodd y dadansoddiad cyntaf o waith mapio adnoddau ei rannu â'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2018.

67 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei bod yn y gorffennol wedi canolbwyntio ar anghenion yn ystod y flwyddyn wrth gynllunio'r gweithlu, ee yr angen i fantoli'r gyllideb. Gan hynny, mae'r CTCI yn rhoi cipolwg o'r gweithlu gan nodi ond ychydig ragdybiaethau ynghylch y gweithlu, sef y trosiant blynyddol a ragwelir a'r cynnydd mewn costau cyflog. Mae'r CTCI yn amlygu heriau o ran y gweithlu a nodir yng nghynlluniau'r gweithlu ac ar lefel cyfarwyddiaeth ac is-adran, fel y ddibyniaeth ar nifer fach o arbenigwyr sydd yn cyrraedd oedran ymddeol, neu swyddi anodd eu llenwi lle ceir prinder sgiliau ar raddfa genedlaethol. Mae'r Tîm Pobl a Datblygu Trefniadol yn gweithio i ddatblygu cynllun i'r holl sefydliad ar gyfer y gweithlu, sy'n nodi gofynion y gweithlu dros oes y CTCI, ac i gefnogi cyflawniad y strategaeth hirdymor. Mae'r tîm yn rhagweld y bydd cynllun y gweithlu yn barod i'w ddefnyddio'n sail ar gyfer CTCI 2019-22. Trafodir datblygu sgiliau a dulliau o gefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu ym mharagraffau 90 a 91.

68 Y llynedd, adroddwyd bod gan yr Ymddiriedolaeth raglen uchelgeisiol o ddatblygiadau ym maes gwybodeg wedi'u cynllunio i gefnogi cyflawniad y CTCI, ond bod y strategaeth ddigidol a'r trefniadau rheoli rhaglenni yn dal heb gael eu cymeradwyo a'u gweithredu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal heb gytuno'n ffurfiol ar y strategaeth ddigidol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu diweddaru ei hymagwedd ddigidol yn unol â'r strategaeth hirdymor. Mae CTCI 2018-21 yn nodi'r datblygiadau y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu bwrw ymlaen â hwy er mwyn cyflawni ei strategaeth ddigidol. Fodd bynnag, yn ein harolwg o aelodau'r bwrdd, canfuom mai ond pedwar o'r naw o aelodau a ymatebodd a gytunai fod y strategaeth ddigidol yn sail i gyflawni'r CTCI. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod datblygiadau gwasanaethau ac argaeledd cyfalaf

dewisol yn dibynnu'n sylweddol y naill ar y llall, a bod hynny'n dylanwadu ar gwmpas a chyflymder y cynnydd yn gysylltiedig â datblygiadau digidol. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y timau gwybodeg ac ystadau yn cydweithio i ganfod sut y gallai technoleg ddigidol a'r ystâd newid neu addasu dros y tymor hir er mwyn cefnogi cyflawniad y strategaeth hirdymor.

69 Ar wahân i'r trefniadau ar gyfer sgorio ceisiadau am gyfalaf dewisol (gweler paragraff 103), nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol i flaenoriaethu datblygiadau digidol. Dylai newidiadau arfaethedig i strwythurau'r sefydliad a'r pwyllgorau (fel y disgrifir ym mharagraff 51) gefnogi blaenoriaethu a sicrhau goruchwyliaeth a chraffu priodol ar gyflymder cyflawni'r strategaeth ddigidol. Mae gwaith i adeiladu gwasanaethau hyfforddi gwybodeg effeithiol yn parhau, gyda hyfforddiant ar faterion fel canolbwyntiau Microsoft Surface, AirWatch a system 'Tarian' ar y gweill. Bydd yr hyfforddiant yn parhau i ehangu, yn enwedig ym maes datblygu'r System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol newydd.

## Monitro ac adrodd ar gyflawniad y cynllun strategol

70 Yn olaf, buom yn ystyried a yw cynnydd wrth weithredu'r cynllun strategol yn cael ei fonitro a'i adrodd yn effeithiol. Gwelsom nad oedd y trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar y cynllun blynyddol wedi newid rhyw lawer, a bod adroddiadau ar gynnydd bellach yn cael eu rhoi'n fwy aml .

71 Mae'r Bwrdd yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros oruchwylio a chraffu ar y cynllun blynyddol, ond mae'r cyfarwyddwyr is-adrannol ac uwch reolwyr eraill sy'n atebol i dîm y weithrediaeth yn dal i fod â chyfrifoldeb gweithredol dros gyflawni. Ar adeg ein harchwiliad, roedd yr Ymddiriedolaeth y datblygu fframwaith atebolrwydd newydd ar gyfer cyflawni blaenoriaethau strategol unigol a nodir yn y CTCI a'r cynllun blynyddol. Mae trefniadau rheoli rhaglenni yn cael eu sefydlu i egluro a chryfhau atebolrwydd dros gyflawni'r cynnyrch (yr allbynnau a'r gweithrediadau) o fewn terfynau amser cytunedig. Ar adeg ein harchwiliad, roedd tîm y weithrediaeth yn nodi'r uwch swyddogion cyfrifol (USCion) ar gyfer pob blaenoriaeth strategol. Bydd yr USCion yn rhannu'r cyfrifoldeb dros y trefniadau rheoli rhaglen ac yn sicrhau bod risgiau i gyflawni yn cael eu rheoli a'u huwchgyfeirio i dîm y weithrediaeth fel bo'r angen. Y bwriad yw gwella gwaith arweinyddol a thraws-sefydliadol i gyflawni blaenoriaethau strategol, ond mae'n rhy fuan ffurfio barn ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn.

72 Ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y cynllun blynyddol yn yr adroddiad perfformiad integredig ar sail gynlluniedig bob chwarter. Mae fformat yr adroddiad cynnydd yn debyg i adroddiad y llynedd, ac mae'n defnyddio system CAG (coch, ambr, gwyrdd) i ddangos nifer y camau (cynnyrch) sydd ar y trywydd iawn neu wedi'u cwblhau o fewn cerrig milltir cytunedig, neu'r camau hynny sydd ar ei hôl hi. Dangosir cynnydd hefyd yn erbyn y blaenoriaethau strategol, ac fesul cyfarwyddiaeth. Nodir y rhesymau dros oedi mewn adroddiad eithrio manwl os bydd cyflawniad yn erbyn cerrig milltir blaenoriaethau strategol ar ei hôl hi, neu os na fyddant wedi'u cwblhau o fewn y raddfa amser gytunedig. Un gwahaniaeth amlwg yn yr adroddiad cynnydd yw bod cyfeirnod amcan strategol wedi'i gynnwys, sy'n ei gwneud hi'n llawer haws trawsgyfeirio rhwng y cynllun blynyddol a'r CTCI. Yn y dyfodol, gallai fod yn fwy heriol adrodd ar gynnydd blaenoriaethau strategol fesul cyfarwyddiaeth, pan atebolrwydd dros gyflawni wedi'i rannu rhwng dau USC. Ar lefel weithredol, bydd adroddiadau ar gynhyrchu cynnyrch, gan gynnwys sicrwydd ansawdd a chymeradwyo, yn cael eu rhoi drwy'r cyfarwyddiaethau, tra bydd cynnydd yn erbyn y cerrig milltir cytunedig yn cael ei fonitro gan dîm y weithrediaeth.

73 Yn 2017, roeddem yn beirniadu natur anfynych adroddiadau yn erbyn y cynllun blynyddol, o ystyried bwriad yr Ymddiriedolaeth i adrodd ar hynny bob chwarter. Derbyniodd y Bwrdd y trydydd adroddiad cynnydd, a'r adroddiad cynnydd olaf ar gyfer cynllun blynyddol 2017-18 ym mis Mai 2018. Roedd yr adroddiad terfynol

hwn yn cynnwys gwybodaeth gliriach am nifer y camau i'w symud ymlaen i gynllun blynyddol 2018-19[3], gan gynnwys amryw o gamau o gynllun 2016-17. Roedd yr wybodaeth yn yr adroddiad eithrio hefyd yn cysylltu'r camau a oedd yn weddill â'r amcan strategol perthnasol yng nghynllun blynyddol 2018-19 a'r graddfeydd amser a ragwelwyd ar gyfer cyflawni. Eleni, gwelsom fod y Bwrdd bellach yn derbyn adroddiadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn cynllun blynyddol 2018-19. Er gwaethaf ein pryderon ynghylch mynychder adroddiadau, roedd holl aelodau'r bwrdd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod yr wybodaeth yr oeddent wedi'i derbyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o berfformiad yn gysylltiedig â chyflawni'r CTCI (cyfartaled Cymru oedd 90%).

74 Mae'r CTCI yn nodi uchelgais yr Ymddiriedolaeth i ddylunio a gweithredu fframwaith rheoli perfformiad newydd erbyn diwedd 2018. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dymuno dangos cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol mewn modd mwy effeithiol, yn ogystal â'r effaith a sicrheir. Yn ôl ein cyfweliadau â'r staff, mae'n debygol o gymryd mwy o amser os oes angen i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu a chytuno ar fesurau canlyniad ac effaith yn gysylltiedig â blaenoriaethau strategol.

75 Yn ystod cyfweliadau â staff allweddol, dywedwyd wrthym y byddai agendâu'r Bwrdd yn y dyfodol yn cael eu trefnu fel bo modd ystyried un flaenoriaeth strategol yn fanwl ym mhob cyfarfod, ar wahân i flaenoriaeth 7 (adeiladu ac ysgogi gwybodaeth a sgiliau er mwyn gwella iechyd a llesiant ledled Cymru). Caiff y rhan fwyaf o flaenoriaeth 7 ei chyflawni drwy rannau o fusnes yr Ymddiriedolaeth nad ydynt yn cael eu monitro ar hyn o bryd, ac fe gaiff hynny ei adrodd yn rhan o'r Fframwaith Cyflawni eu ei gynnwys yn yr adroddiad perfformiad integredig. Gan hynny, mae'n bosib bod cyfle am sicrwydd wedi'i golli onid yw'r pwyllgor newydd yn goruchwylio a chraffu ac yn rhoi sicrwydd bwrdd.

## Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

76 I raddau helaeth, mae defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn dibynnu ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli ei weithlu, ei gyllid ac asedau ffisegol eraill, a chaffael nwyddau a gwasanaethau. Yn yr adran hon, byddwn yn rhoi sylwadau ar y trefniadau hynny. Gwelsom fod yr **Ymddiriedolaeth, ar y cyfan, yn rheoli ei gweithlu, ei chyllid a'i hasedau ffisegol yn dda o ddydd i ddydd, ac mae cefnogaeth dda ar gael i reolwyr a deiliaid cyllideb. Er hynny, gallai wella agweddau ar gaffael, adroddiadau ariannol a pherfformiad y gweithlu**.

### Rheoli'r gweithlu

77 Y gweithlu yw ased mwyaf y Ymddiriedolaeth, yn bennaf gan fod cyflogau i gyfrif am gyfran mor sylweddol o'i gwariant. Mae'n bwysig sicrhau bod y gweithlu yn gynhyrchiol ac wedi'i reoli'n dda, gan fod staff yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, ac er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella ansawdd. Gwelsom fod **trefniadau'r Ymddiriedolaeth a'i chefnogaeth i reoli a datblygu'r gweithlu yn parhau i wella a bod gwelliannau wedi'u hadlewyrchu mewn rhai mesurau perfformiad allweddol**.

[3] Roedd 57 o'r 324 o gamau a nodwyd yng nghynllun blynyddol 2017-18 heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys 7 cam o gynllun blynyddol 2016-17.

78 Mae dangosfwrdd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflwyno ystod eang o fetrigau, crynodeb o berfformiad a chamau unioni ar gyfer gwella. Yn ogystal â hynny, cynhaliodd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Trefniadol ymchwiliadau manwl i ganfod yr hyn sydd wrth wraidd absenoldeb salwch a throsiant staff.

79 Yn Nangosyn 1 gwelir sut mae'r Ymddiriedolaeth yn perfformio yng nghyswllt rhai mesuriadau allweddol ar gyfer y gweithlu, o gymharu â chyfartaledd Cymru. Dengys y data fod perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn gymysg.

Dangosyn 1: perfformiad yn erbyn mesuriadau allweddol y gweithlu[4]

| Mesuriadau'r gweithlu | Yr Ymddiriedolaeth | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| Absenoldeb oherwydd salwch | 4.1% | 5.3% |
| Trosiant | 10.3% | 6.9% |
| Swyddi Gwag | 0.7% | 2.6% |
| Arfarniadau | 47% | 67% |
| Hyfforddiant statudol a gorfodol | 89% | 73% |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gweithlu GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gorffennaf 2018

80 Mae'r Ymddiriedolaeth yn perfformio'n well o ran absenoldeb salwch o gymharu â chyfartaledd Cymru ar hyn o bryd, ond roedd y cyfartaledd 12 mis treigl ym mis Gorffennaf 2018 yn uwch na'r targed o 3.25%. Mae'r cyfartaledd dros 12 mis treigl wedi bod yn cynyddu o 3.8% ym mis Gorffennaf 2017 i 4.1% ym mis Gorffennaf 2018. Yn sgil y gwaith ymchwil manwl, gwelwyd bod y cyfraddau absenoldeb salwch oddi mewn i gyfarwyddiaethau, a rhyngddynt, yn amrywio rhwng llai nag 1% a 4.7%.

81 Yn ystod 2017-18, cofnodwyd 1,846 o gyfnodau o absenoldeb salwch, ac absenoldeb byrdymor llai na 28 diwrnod oedd i gyfrif am 86% ohonynt. Absenoldeb hirdymor a barodd 28 diwrnod neu fwy oedd i gyfrif am 14% o'r cyfnodau o absenoldeb. Dengys ein dadansoddiad o ddata'r Ymddiriedolaeth fod 1,328 o absenoldebau salwch byrdymor dros gyfnod o saith diwrnod neu lai, a'u bod wedi golygu colli 3,437 o ddiwrnodiau gwaith. Yn ogystal â cholli diwrnodiau gwaith, costiodd absenoldeb salwch £2.1 miliwn i'r Ymddiriedolaeth mewn costau cyflog yn unig yn ystod 2017-18.

82 Yn ogystal â'i rhaglen waith barhaus i ymdrin ag absenoldeb salwch, fel ei chylch o archwiliadau absenoldeb salwch, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal hyfforddiant ar absenoldeb salwch i reolwyr llinell. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys gwella ansawdd gwybodaeth a gesglir am y rhesymau dros absenoldeb salwch, gan mai 'anhysbys' yw'r hyn a gofnodir ar gyfer un o bob deg o'r rhesymau. Fodd bynnag, ni welir effaith y cynlluniau hyn eto yn y gyfradd absenoldeb salwch gyfartalog dros 12 mis treigl.

83 'Pryder/straen/iselder/salwch seiciatrig arall' o hyd yw'r rheswm y cyfeirir ato amlaf am absenoldeb salwch. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, datblygodd yr Ymddiriedolaeth bolisi atal straen a lles meddyliodd,

[4] Salwch: cyfartaledd treigl dros 12 mis ym mis Gorffennaf 2018; Trosiant: cyfnod o 12 mis o fis Gorffennaf 2017 hyd fis Mehefin 2018; Swyddi Gwag: yn seiliedig ar swyddi gwag a hysbysebwyd ym mis Gorffennaf 2018; Arfarnu: y 12 mis blaenorol ym mis Gorffennaf 2018; Hyfforddiant statudol a gorfodol: ym mis Gorffennaf 2018

gweithredodd fentrau i gefnogi straen a rheoli gorbryder, ac i wella lles yn y gweithlu, yn ogystal â llofnodi'r addewid 'Amser i Newid'[5]. Efallai ei bod hi'n rhy fuan i asesu effaith y mentrau hyn ar absenoldeb salwch. Fodd bynnag, mae cyfradd yr absenoldebau a briodolir i 'orbryder/straen/iselder/salwch seiciatrig arall' yn lleihau. Ym mis Awst 2018, priodolwyd 25.5% o'r absenoldebau i'r rheswm hwn o gymharu â 31.9% ym mis Gorffennaf 2017.

84 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod ym ymrwymedig i ofalu am iechyd a llesiant ei staff yn fwy cyffredinol, ac enillodd wobr arian y Safon Iechyd Gorfforaethol yn gynharach eleni. Mae'n cynnal peilot o Amser Symud ar hyn o bryd, sef rhaglen fewnol sy'n rhoi awr yr wythnos i'r staff gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol, ac bydd pob cyfarfod o'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Trefniadol yn dechrau gyda stori am y staff. Mae gwaith yn parhau i ymdrin â chanfyddiadau arolwg staff y GIG 2016 a'r Raddfa Ymgysylltu Feddygol. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu gerbron y Pwyllgor Pobl a Datblygu Trefniadol, a bydd aelodau'r pwyllgor yn eu herio. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau, a'r camau eraill ar y trywydd iawn i'w cwblhau erbyn mis Ebrill 2019.

85 Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ailedrych ar gynllun gweithredu'r arolwg staff gwreiddiol yn 2016 gan fod canfyddiadau o arolwg staff y GIG 2018 bellach ar gael. Gwelir gwelliannau, fel cynnydd mewn arfarniadau, ond ceir hefyd feysydd lle mae angen gwneud mwy o waith, er enghraifft er mwyn ymdrin â'r cynnydd a adroddwyd mewn straen yn gysylltiedig â gwaith neu wella'r dull o reoli newid. Mae tîm Datblygu Trefniadol yr Ymddiriedolaeth yn arwain gwaith i gefnogi datblygiad cynlluniau gweithredu ar raddfa'r sefydliad, yr is-adran neu'r gyfarwyddiaeth.

86 Er bod cyfradd drosiant yr Ymddiriedolaeth (10.3%) yn uwch na chyfartaledd Cymru (6.9%), mae'r gyfradd honno'n gostwng ac yn well na'r gyfradd a adroddwyd gennym y llynedd (11.9%). Cyflwynwyd adroddiad at wraidd trosiant staff gerbron y Pwyllgor Pobl a Datblygu Trefniadol ym mis Gorffennaf. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r canfyddiadau manwl yn sail ar gyfer mentrau cadw staff, fel ailgyflwyno cyfweliadau ymadael ochr yn ochr â'r holiadur ymadael, oriau hyblyg a chyflawni gwaith pellach i ystyried y defnydd o gontractau cyfnod penodol, gan mai dyma oedd un o'r rhesymau cyffredin dros adael Er bod y trosiant yn gymharol uchel o gymharu â chyfartaledd Cymru, ychydig o swyddi gwag a gaiff eu hysbysebu yn ystod unrhyw fis. Mae'r amser a gymerir i recriwtio i swyddi gwag yn gwella ac ym mis Gorffennaf, cymerodd y broses recriwtio 41.4 o ddiwrnodiau (o fewn y targed 44 diwrnod) o gymharu â 64.7 diwrnod y llynedd.

87 Ceir gwaith parhaus i wella cydymffurfiaeth ag arfarniadau blynyddol ac adolygiadau perfformiad ar gyfer staff anfeddygol ac anneintyddol. Yn ôl y data diweddaraf o system Cofnod Staff Electronig (ESR) a adroddwyd gerbron y Bwrdd ym mis Tachwedd 2018, roedd dros hanner (57%) y staff wedi derbyn arfarniad yn y 12 mis blaenorol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus bod y gyfradd gydymffurfio wirioneddol yn uwch gan nad yw'r holl wybodaeth am arfarniadau yn cael ei chasglu'n rheolaidd yn yr ESR. Cefnogir yr honiad hwn yng nghanfyddiadau arolwg staff y GIG 2018, lle adroddodd 80% o staff yr Ymddiriedolaeth eu bod wedi derbyn PADR yn y 12 mis diwethaf, o gymharu â 71% yn 2016. Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod PADRs yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n brydlon, ond mae gan yr Ymddiriedolaeth lawer o waith i'w wneud cyn gwireddu ei huchelgais i sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn dau adolygiad perfformiad ffurfiol bob blwyddyn. 100% yw'r gyfradd gydymffurfio ar gyfer arfarniadau meddygol/deintyddol ac ailddilysu. 89% yw'r gydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant statudol a gorfodol (hy, y fframwaith

[5] Mae Amser i Newid yn fudiad cymdeithasol sy'n gweithio i roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu a brofir gan bobl â phroblemau iechyd meddwl.

hyfforddiant sgiliau craidd), sydd yn uwch na tharged GIG Cymru (85%). Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio tuag at ei tharged ei hun o 95%.

88 Mae data o'r ffurflenni monitro ariannol a gyflwynir gan gyrff iechyd i Lywodraeth Cymru yn parhau i ddangos bod yr Ymddiriedolaeth yn gwario llai ar staff asiantaeth (meddygol ac anfeddygol) na'r rhan fwyaf o gyrff eraill y GIG yng Nghymru. Yn 2017-18 £2.1 miliwn oedd gwariant yr Ymddiriedolaeth ar staff asiantaeth, sydd yn fwy na dwbl y gwariant a gafwyd y flwyddyn gynt. 2.8% oedd y gwariant ar staff asiantaeth fel cyfran o gyfanswm y bil cyflogau, o gymharu â 3.7% ledled Cymru (yn amrywio rhwng 0.3% a 6.5%). Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd cyfanswm ei gwariant ar staff asiantaeth yr un peth eleni am ei bod yn parhau i ddibynnu ar weithwyr locwm ac asiantaeth o fewn yr Is-adran Microbioleg lle mae recriwtio microbiolegwyr meddygol ymgynghorol a gwyddonwyr biofeddygol yn her. Ddiwedd mis Hydref, roedd gwariant ar staff asiantaeth yn 2.8% fel cyfran o gyfanswm y bil cyflogau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau gostyngiadau yng nghostau gweithwyr locwm meddygol yn rhan o'r rhaglen waith ehangach i ddarparu gwasanaeth Microbioleg o ansawdd uchel, sy'n ddiogel ac sy'n gynaliadwy, gyda'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Trefniadol a'r Bwrdd yn craffu'n rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.

89 Gwariant ar staff gweinyddol a chlercol yw'r gyfran fwyaf o wariant ar staff asiantaeth (38%), o gymharu â staff meddygol (34%) gwyddonwyr gofal iechyd (27%) a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (1%). Yn rhan o'r arbedion effeithlonrwydd trefniadol eleni, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried cyflawni cyfanswm o £200,000 o arbedion drwy leihau'r defnydd o staff asiantaeth gweinyddol a chlercol. Wrth gyflawni ein gwaith maes, roedd y tîm Pobl a Datblygu Trefniadol yn adolygu'r defnydd helaeth o staff asiantaeth gweinyddol a chlercol er mwyn deall y rhesymau a gwneud argymhellion i leihau'r defnydd hwnnw. Nododd y tîm nad oedd rhai trefniadau yn cydymffurfio â'r fframwaith ar gyfer cyflenwi gweithwyr asiantaeth, ac roedd yn gweithredu i ddatrys y mater. Ers ein gwaith archwilio, caiff pob cais am weithwyr asiantaeth gweinyddol a chlercol ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Panel Rheoli Sefydlu. Ar gyfer pob cais nas cymeradwyir gan y Panel, bydd y gyllideb yn cael ei thynnu o'r ganolfan gostau arfaethedig a'i chadw mewn cronfa ganolog. Ar ddiwedd mis Hydref, dangosai'r ffurflen ariannol a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaeth i Lywodraeth Cymru nad oedd wedi dechrau sicrhau arbedion effeithlonrwydd eto yn gysylltiedig â staff asiantaeth.

90 Wrth inni adrodd y llynedd, roedd yr Ymddiriedolaeth yn cyflwyno pecyn cymorth cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar y 'chwe cam at gynllunio'r gweithlu mewn modd integredig' a gefnogwyd yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru. Darparodd y tîm Pobl a Datblygu Trefniadol, ar y cyd â Gwasanaeth Gweithlu a Datblygu Addysg GIG Cymru, hyfforddiant i reolwyr sy'n gyfrifol am gynllunio'r gweithlu. Bu'r Partneriaid Busnes Pobl, y mae rhai ohonynt yn meddu ar gymwysterau ôl-raddedig ym maes cynllunio'r gweithlu, yn cynorthwyo rheolwyr i gwblhau'r pecyn cymorth. Nododd y tîm fod rheolwyr ar y cyfan yn gallu cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y gweithlu, ond bod dyfnder ac ehangder eu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar waith cynllunio'r gweithlu yn amrywio. Nododd y tîm hefyd fod angen cynnwys Penaethiaid Proffesiynau'r Ymddiriedolaeth mewn gwaith strategol i gynllunio'r gweithlu er mwyn canfod materion traws-sefydliadol ar gyfer gwahanol grwpiau proffesiynol.

91 Er nad oes unrhyw gynllun gweithlu ar gyfer y sefydliad cyfan ar hyn o bryd, bu'r tîm Pobl a Datblygu Trefniadol yn adolygu cynlluniau gweithlu'r cyfarwyddiaethau ar draws y sefydliad er mwyn canfod themâu a oedd yn ailadrodd. Cyflwynwyd crynodeb cynhwysfawr o'r themâu ac o'r camau a gymerwyd â'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Trefniadol ym mis Gorffennaf. Mae'r themâu yn cynnwys yr angen am sgiliau i reoli newid sefydliadol a chefnogi gwaith matrics er mwyn symud i ffwrdd oddi wrth fodel cyfarwyddiaeth tuag at

gydweithredu ar draws y sefydliad, lle rhennir y cyfrifoldeb dros gyflawni blaenoriaethau strategol. Nododd y tîm hefyd fod datblygiad yn canolbwyntio ar anghenion dysgu unigol, a bod angen cefnogaeth ar reolwyr i alinio anghenion datblygu unigol â'r sgiliau sydd eu hangen ar yr Ymddiriedolaeth er mwyn cyflawni'r strategaeth hirdymor.

## Rheoli cyllid, caffael ac asedau

92 Buom yn ystyried rheoli arian a chyllidebau, rheolaethau ariannol, caffael rheoli asedau a chefnogaeth a phrosesau gweithredol.Gwelsom fod trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli arian **yn parhau i weithio'n dda, a bod y gefnogaeth i ddeiliaid cyllideb yn dda. Serch hynny, mae lle i wella agweddau ar adroddiadau ariannol a chydymffurfiaeth â phrosesau caffael**.

93 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli a chraffu ar berfformiad ariannol, gan gynnwys cynlluniau arbed, i raddau helaeth yn gadarn. Drwy ein gwaith ar y cyfrifon blynyddol, nodwyd bod y rheolaethau ariannol yn gadarn. Mae'r model partner busnes yn rhoi cefnogaeth effeithiol i ddeiliaid cyllideb. Eleni, buom yn edrych ar gyfran y staff sydd yn meddu ar gymwysterau cyfrifyddiaeth. Dengys ein gwaith dadansoddi fod 72% o dîm cyllid yr Ymddiriedolaeth yn meddu ar gymhwyster cyfrifyddiaeth a'r gweddill ohonynt yn derbyn hyfforddiant. Ledled Cymru, llai na hanner y staff (43%) mewn timau cyllid sy'n meddu ar gymwysterau cyfrifyddiaeth. Mae'r partneriaid busnes cyllid yn cyfarfod bob mis â rheolwyr is-adrannau a chyfarwyddiaethau i graffu ar y sefyllfa ariannol yng nghyswllt cyllidebau, ac i gytuno ar y camau sydd eu hangen i reoli risg ac adennill gorwariant neu osod enillion eraill yn eu herbyn. Mae tîm y weithrediaeth yn parhau i graffu ar y sefyllfa ariannol gyffredinol bob chwarter, gan gynnwys perfformiad cynlluniau arbed unigol.

94 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019, ac ar ddiwedd mis Hydref dangosai ei ffurflen monitro ariannol i Lywodraeth Cymru warged bychan (£55,000). Mae adroddiad perfformiad integredig yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd yn gyson â ffurflen monitro ariannol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gwelsom wahaniaeth rhwng y ffurflen monitro ariannol a'r adroddiad perfformiad integredig, o ran y swm o arbedion o gyflawnwyd.

95 Dengys ffurflen monitro ariannol Llywodraeth Cymru fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni £1.14 (52%) o'r arbedion a gynlluniwyd ganddo (£2.198 miliwn) ar ddiwedd mis Hydref. Yn ôl ein trafodaethau â swyddogion, mae'r ffurflen monitro ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod arbedion wedi'u cynllunio a'u cyflawni fwy neu lai fesul deuddegfed rhan gyfartal. Fodd bynnag, cafodd cyllidebau'r cyfarwyddiaethau a'r is-adrannau eu gostwng ar ddechrau'r flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau'r lefel ofynnol o arbedion. Gan hynny, roedd yr arbedion llawn ar gyfer y flwyddyn o £2.11 miliwn (96%) sydd i raddau helaeth yn tarddu o gyflogau, eisoes wedi'i sicrhau ar ddiwedd mis Hydref, ac adroddwyd am hynny i'r Bwrdd drwy'r adroddiad perfformiad integredig. Fodd bynnag, dengys y ffurflen monitro ariannol ar gyfer mis saith fod yr Ymddiriedolaeth yn dal heb gyflawni unrhyw arbedion effeithlonrwydd sefydliadol (£400,000), yr oedd disgwyl iddynt ymddangos hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth, nid yw ei ragolygon i fantoli'r gyllideb yn ddibynnol mwyach ar gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd sefydliadol hyn.

96 Mae cynnwys a ffurf yr adroddiadau cyllid a gyflwynir i'r Bwrdd yn parhau i fod yr un peth i raddau helaeth. Y llynedd, argymhellwyd y dylai'r Ymddiriedolaeth gynnwys gwybodaeth yn adroddiadau cyllid y bwrdd am berfformiad cynlluniau ailfuddsoddi a ariannwyd drwy'r arbedion effeithlonrwydd cynlluniedig. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnwys gwybodaeth am hynny o fis chwech ymlaen i gyd-daro â'r buddsoddi. Byddai disgwyl gweld yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau o fis Tachwedd yn unol â'r cylch o gyfarfodydd bwrdd. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad perfformiad integredig yn cynnwys unrhyw

wybodaeth am ailfuddsoddi. Roedd yr holl aelodau bwrdd a ymatebai i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod yr wybodaeth a gawsant yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o berfformiad ariannol.

97 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau trefniadau caffael er mwyn sicrhau cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Mae gweithgarwch caffael i raddau helaeth wedi'i ddatganoli i Wasanaethau Caffael Cydwasanaethau'r GIG (y Gwasanaethau Caffael) drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Ceir strategaeth gaffael i Gymru gyfan, a chynllun busnes Cymru gyfan yn sail i hynny, ond nid oes unrhyw gynllun caffael cyffredinol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Caiff gweithgarwch caffael ei ysgogi'n bennaf gan gynlluniau cyfalaf strategol a dewisol yr Ymddiriedolaeth, ac maent yn gysylltiedig ag amnewid asedau. Mae problemau'n gysylltiedig â chydymffurfio â phrosesau caffael wedi achosi i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu system i gasglu gweithgarwch caffael cynlluniedig, a ddefnyddir yn y pen draw yn sail ar gyfer cynllun gwaith caffael. Dylai'r system hon fod o gymorth i sicrhau cyngor a chanllawiau amserol sy'n cefnogi cydymffurfiaeth well, a sicrhau gwerth am arian o bryniannau a chontractau.

98 Mae'r capasiti caffael yn brin. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bennaeth Caffael ymroddedig a chefnogaeth gan dîm ehangach y Gwasanaethau Caffael, a gyflogir gan Cydwasanaethau'r GIG. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Caffael i gytuno ar gefnogaeth gaffael i'r unedau a gynhelir, fel Grŵp Cydweithredol y GIG. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'r Pennaeth Caffael i gynyddu sgiliau'r tîm cyllid er mwyn iddynt allu cefnogi gweithgarwch caffael yn well. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn sefydlu partner busnes caffael i atgyfnerthu rolau a chyfrifoldebau staff yr Ymddiriedolaeth a rolau a chyfrifoldebau'r Gwasanaethau Caffael. Mae grŵp hyrwyddwyr caffael wedi cael ei sefydlu i gryfhau'r gydymffurfiaeth â gweithdrefnau o ddydd i ddydd, ac i sicrhau goruchwyliaeth weithredol ar yr amserlen gaffael.

99 Mae'r Pennaeth Caffael yn gyfrifol am oruchwylio gweithgarwch caffael, am fonitro cydymffurfio â phrosesau a gweithdrefnau caffael ac am gynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth caffael y sector cyhoeddus. Y llynedd, bu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn adolygu trefniadau caffael yr Ymddiriedolaeth ac aseswyd eu bod yn rhoi sicrwydd rhesymol. Nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol feysydd i'w gwella y mae'r Ymddiriedolaeth, ar y cyd â'r Gwasanaethau Caffael, yn parhau i fynd i'r afael â hwy. Dyma'r gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno: sicrhau bod unigolion sy'n llofnodi trafodion ariannol yn llofnodi'r Gofrestr Datgan Buddiannau; egluro rolau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth a rolau a chyfrifoldebau'r Gwasanaethau Caffael; gweithio gyda'r Gwasanaethau Caffael i datblygu canllaw caffael rhyngweithiol; monitro gwariant ar gaffael sydd yn is na'r trothwy dyfynbrisiau, er mwyn sicrhau nad yw gwariant cronnus ar gyflenwyr yn mynd heibio i derfynau caffael; a monitro gwariant nad yw wedi'i gynnwys yn y catalog yn rheolaidd.

100 Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn nodi ei bod hi'n ofynnol cael tri dyfynbris ysgrifenedig er mwyn prynu nwyddau a gwasanaethau gwerth rhwng £5,000 a £25,000 (heb gynnwys TAW), pedwar tendr cystadleuol ysgrifenedig ar gyfer nwyddau a gwasanaethau lle bo'r gwerth rhwng £25,000 a throthwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd[6] a phum tendr lle bo'r gwerth yn uwch na throthwy'r Cyfnodolyn hwnnw. Fel arfer, dylid caffael yr holl nwyddau a'r gwasanaethau yn y sector cyhoeddus drwy gystadleuaeth er mwyn sicrhau gwerth am arian. Ni ddylid ond defnyddio gweithred dyfynbris unigol (GDU) a gweithred tendr unigol (GTU) fel eithriad, ac ni ddylid ond eu defnyddio pan fydd

6Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yw'r cyhoeddiad lle mae'n rhaid cyhoeddi'r holl dendrau gan y sector cyhoeddus a gaiff eu prisio'n uwch na throthwy ariannol penodol, yn unol â deddfwriaeth yr UE.

angen cwmni neu gontractwr unigol, neu eitem unigol o wasanaeth priodol. Yn yr achosion hyn, bydd yn rhaid awdurdodi'r pryniant yn ffurfiol.

101 Adroddir am bob GTU, GDU ac estyniad contract yn rheolaidd gerbron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, fel bo'n ofynnol yng Nghyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth. Buom yn cymharu nifer a gwerth y GTUoedd a'r GDUoedd a amlygwyd yn yr adroddiadau caffael a gyflwynwyd i'r Pwyllgor rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2018 (Dangosyn 2). Dengys ein gwaith dadansoddi fod nifer y GTUoedd a'r GDUoedd wedi cynyddu o 40 i 59. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiadau caffael yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2017 yn dangos mai GTUoedd a GDUoedd oedd i gyfrif am 44% o'r gwariant caffael (ar ddyfynbrisiau cystadleuol, tendrau cystadleuol, GTUoedd a GDUoedd) a adroddwyd gerbron y Pwyllgor, Newidiodd fformat adroddiadau caffael o fis Medi 2017, ac nid oedd gwybodaeth am ddyfynbrisiau cystadleuol a thendrau cystadleuol yn cael ei hadrodd mwyach. Ni allwn felly gyfrifo cyfran y gwariant caffael a briodolir i GTUoedd a GDU rhwng mis Medi 2017 a mis Awst 2018. Yn ogystal â hynny, mae'r adroddiadau caffael bellach yn cynnwys gwybodaeth am GTUoedd a GDUoedd lle gosodwyd nodyn ar ffeil fel cofnod o benderfyniadau, neu lle awdurdodwyd newid o'r drefn arferol. Efallai mai'r newid yn y dull adrodd sydd i gyfrif am y cynnydd a welir mewn GTUoedd a GDUoedd. Fodd bynnag, ar sail y naratif a gyflwynwyd yn yr adroddiadau o'r cyfnod hwn, dim ond 28 o'r 59 o GTUoedd a GDUoedd a gafodd eu cymeradwyo - hy, a ddilynai weithdrefnau caffael. Ni chafodd y 31 arall eu cymeradwyo. Serch hynny, gellid bod angen cryfhau'r rheolaethau gan fod y caffaeliadau hynny wedi mynd rhagddynt. Dengys yr adroddiadau caffael a'r trafodaethau Pwyllgor fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau pellach i gryfhau gweithdrefnau caffael.

Dangosyn 2: nifer a gwerth y gweithredoedd tendr unigol a'r gweithredoedd dyfynbris unigol rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2018

| | 01/09/16 i 29/08/17 | 30/08/17 i 10/08/18 |
|---|---|---|
| Nifer y GTUoedd a'r GDUoedd | 40 | 59 |
| Gwerth y GTUoedd a'r GDUoedd | £1,774,722 | £2,069,963 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau caffael Iechyd Cyhoeddus Cymru

102 Mae Grŵp Arweinwyr Busnes yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys y Pennaeth Caffael, yn monitro gweithgarwch caffael ar lefel weithredol. Un o'r eitemau sefydlog ar yr agenda yw caffael eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y catalog, a'r targed yw prynu 80% o nwyddau a gwasanaethau o gatalog Cymru gyfan. Ar ddiwedd chwarter un 2018-19, adroddwyd bod 64% o eitemau wedi'u prynu o'r catalog.

103 Cyllid cyfalaf yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2018-19 yw £1.61 miliwn - £1.29 miliwn o gyfalaf dewisol a £322,000 o gyfalaf strategol. Pwrpas y cyllid cyfalaf strategol yw datblygu system wybodaeth newydd ar gyfer Gwasanaeth Sgrinio Serfigol Cymru. Er mwyn neilltuo cyfalaf dewisol, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gofyn am geisiadau o bob rhan o'r sefydliad. Mae'r grŵp cynllunio cyfalaf yn dyfarnu sgôr i'r ceisiadau yn erbyn matrics blaenoriaethu ac yn cyflwyno'r rhestr o geisiadau cymeradwy a'r ceisiadau â blaenoriaeth i'w cadarnhau gan dîm y weithrediaeth. Cafodd y rhestr o gynlluniau cymeradwy ei chynnwys yn adroddiad perfformiad integredig mis Gorffennaf 2018 i'r Bwrdd. Dyrannwyd cyfanswm o £1.13 miliwn o'r cyfalaf dewisol i'r cynlluniau. Mae swm bach (£163,000) heb ei ddyrannu ac wedi'i gadw wrth gefn, er bod y swm

wrth gefn yn uwch na'r swm a nodwyd yn wreiddiol (£25,000) yng nghynllun ariannol y CTCI. Ceir bellach £260,000 o gyfalaf dewisol sydd heb ei ddyrannu gan fod gostyngiad o £100,000 wedi'i gyflwyno i'r dyraniad cyfalaf strategol a chan fod y dyraniad cyfalaf dewisol wedi cynyddu gan na fydd yr holl gyllid ar gyfer y system rheoli gwybodaeth y gwasanaeth serfigol wedi'i wario erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

104 Dengys ffurflenni monitro ariannol Llywodraeth Cymru fod gwariant ar gynlluniau cyfalaf dewisol wedi'i gynllunio o fis pedwar ymlaen, ac o fis dau ymlaen yn achos cyfalaf strategol. Caiff gwariant cyfalaf dewisol a strategol sydd wedi'i gynllunio ei addasu bob mis i adlewyrchu'r gwariant gwirioneddol ac i ailbroffilio'r gwariant hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dengys adolygiad o'r ffurflenni ariannol fod gwariant ar gynlluniau cyfalaf dewisol a strategol yn llai na'r proffil. Ym mis chwech, £109,000 oedd y gwariant cyfalaf dewisol a £97,000 oedd y gwariant cyfalaf strategol (13% o gyfanswm y cyllid cyfalaf a oedd ar gael. Defnyddir cyllid cyfalaf i amnewid cyfarpar pan fydd yn cyrraedd diwedd ei oes, ond nid yw adran gyllid yr adroddiad perfformiad integredig ar hyn o bryd yn amlygu risgiau i gyflenwi gwasanaethau yn sgil oedi mewn gwariant a gynlluniwyd. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau cyllid i ddangos a yw oedi mewn gwariant cynlluniedig yn amharu ar ddarpariaeth gwasanaeth.

105 Mae sylfaen asedau'r Ymddiriedolaeth yn gymharol fach, ac mae tua hanner yr asedau yn gysylltiedig â gwasanaethau Sgrinio a Microbioleg. Nid oes unrhyw gynllun trosfwaol ar gyfer rheoli asedau, ond mae cynlluniau lleol wedi'u sefydlu mewn rhai is-adrannau, fel gwybodeg. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr asedau gynhwysfawr ar gyfer ei hystâd rydd-ddaliadol a'i chyfarpar, sy'n nodi graddfa a chost cael rhai newydd yn eu lle. Cedwir y gofrestr asedau gan unigolyn a ddynodir o fewn y tîm cyllid, ac mae polisïau a gweithdrefnau lleol a chorfforaethol yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli a gwaredu asedau.

106 Ariennir cynlluniau caffael graddfa fawr drwy gyfalaf strategol sy'n cynnwys y gost lawn o brynu a chostau cynnal a chadw a refeniw parhaus. Yn adran gyllid adroddiad perfformiad integredig Gorffennaf 2018, darparwyd gwybodaeth am raglen gyfalaf yr Ymddiriedolaeth ar gyfer amnewid dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys math a chost y cyfarpar ar gyfer gwahanol feysydd ym musnes yr Ymddiriedolaeth.

107 Yn wahanol i gyrff eraill y GIG, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol o gostau cynnal a chadw. Fodd bynnag, y mae wedi clustnodi rhywfaint o gyllid cyfalaf dewisol er mwyn gwella agweddau ar eiddo sydd ar brydles er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn addas i'r diben ac yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch. Cyn diwedd 2018, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn bwriadu asesu ei hystâd rydd-ddaliadol o ran y cyflwr ffisegol a'r defnydd o ofod er enghraifft, yn ogystal ag adolygu perfformiad ei safleoedd o ran ynni, a'r camau sydd i'w cymryd er mwyn gwella perfformiad ynni.

# Argymhellion

Dangosyn 3: argymhellion 2018

| argymhellion 2018 |
| --- |
| **Caffael** |
| A1 Mae'n ymddangos bod nifer y GTUoedd a'r GDUoedd yn tyfu ac yn ôl y naratif mewn adroddiadau caffael gellid cryfhau rheolaethau eto. Dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>a) sefydlu system i fonitro ac adrodd ar dueddiadau o ran GTUoedd a GDUoedd;<br>b) ystyried ailgyflwyno gwybodaeth am gyfanswm a gwerth tendrau a dyfynbrisiau cystadleuol er mwyn creu cyd-destun i asesu nifer a gwerth GTUoedd a GDUoedd; a<br>c) darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol am effeithiolrwydd y camau i sicrhau cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau caffael. |

# Atodiad 1

## Cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol

Dangosyn 4: camau gweithredu mewn ymateb i 2017

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| A1 | Nid yw adroddiadau cyllid y Bwrdd yn cynnwys gwybodaeth i ddangos a yw blaenoriaethau ailfuddsoddi a ariennir drwy arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn strategaeth y gyllideb wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Dylai'r Ymddiriedolaeth felly gynnwys gwybodaeth am berfformiad cynlluniau ailfuddsoddi a ariennir drwy arbedion effeithlonrwydd yn ei hadroddiadau cyllid i'r Bwrdd. | Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnwys gwybodaeth am arbedion effeithlonrwydd a nodwyd ac a ailfuddsoddwyd o fis chwech ymlaen. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad perfformiad integredig a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2018 yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynghylch ailfuddsoddi arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd. | Naddo |
| A2 | Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfranogwr gorfodol yn ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ond nid yw wedi gwneud defnydd effeithiol o'r parau data a ddarparwyd ar gyfer 2016-17. Mae ymarfer paru data 2018-19 yr NFI yn dechrau ym mis Hydref 2018, a phryd hynny dylai'r Ymddiriedolaeth sefydlu cynllun gweithredu i sicrhau bod y parau data y mae'n eu derbyn o'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu, a bod ymchwiliad | O adolygu rhaglen we'r NFI gwelir bod yr Ymddiriedolaeth wedi adolygu'r rhan fwyaf o'r parau a argymhellwyd erbyn diwedd 2017. Er mai ond canolbwyntio ar y parau a argymhellwyd yn barau uchel eu blaenoriaeth y mae adolygiad yr Ymddiriedolaeth, ystyriwn fod yr ymagwedd honno'n rhesymol gan fod y gwaith adolygu'n cael ei gynnal yn hwyr. Mewn ymarferion yn y dyfodol, byddwn yn disgwyl i'r Ymddiriedolaeth gychwyn adolygu'r parau data cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Yn ogystal ag adolygu'r holl barau uchel eu blaenoriaeth a argymhellir i'w hadolygu, byddem hefyd yn disgwyl i'r Ymddiriedolaeth gynnal adolygiad o sampl o'r parau data sy'n weddill. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn derbyn y parau data ar gyfer ymarfer paru data diweddaraf yr NFI ym mis Ionawr 2019, a phryd hynny mae'n bwriadu sefydlu cynllun i'w hadolygu'n brydlon. | Naddo - ni ddisgwylir hynny hyd Ionawr 2019. |

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| | prydlon yn cael ei gynnal iddynt lle bo angen. | | |
| A3 | Mae Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) yr UE, a ddaw i rym o 18 Mai 2018, yn mandadu rôl y Swyddog Diogelu Data (SDD). Fodd bynnag, nid yw rôl y SDD, na'i safle yn strwythurau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, wedi'i disgrifio ym Mholisi Llywodraethu Gwybodaeth newydd yr Ymddiriedolaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau'r SDD a'r llinellau atebolrwydd sy'n gysylltiedig â'r rôl honno. | Y llynedd, adroddwyd bod tîm y weithrediaeth wedi cytuno ar ddynodi'r SDD, ond rôl yr SDD, a'i lleoliad yn y strwythurau llywodraethu, oedd yr unig rôl nad oedd wedi'i disgrifio ym Mholisi Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth. Mewn ymateb i'n hargymhelliad, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cynllunio i ddiwygio ei pholisi i gynnwys rôl y SDD pan fyddai'r polisi'n cael ei adolygu nesaf. Mae dynodiad y SDD i'w weld yn glir yn yr hysbysiad preifatrwydd a geir ar wefan yr Ymddiriedolaeth.<br>Mae canfyddiadau'r RhDDC a gyflwynwyd yng nghyfarfod bwrdd mis Mai 2018 hefyd yn nodi fod rôl a llinellau atebolrwydd y SDD yn dal heb eu cynnwys mewn polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â data personol. Yn y cyfamser, lluniwyd Polisïau Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Gwybodaeth Cymru Gyfan, a fabwysiadwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Nid yw'r polisïau hyn yn nodi rôl y SDD. Maent yn nodi y bydd cyfrifoldebau penodol wedi'u dirprwyo i'r SDD, ond ni fanylir ar y cyfrifoldebau hynny ym mholisïau Cymru gyfan.<br>Ym mis Gorffennaf 2018, nododd yr Ymddiriedolaeth drefniadau newydd ar gyfer rhoi cefnogaeth a chyngor arbenigol i'r holl is-adrannau a chyfarwyddiaethau yn gysylltiedig â llywodraethu gwybodaeth. Mae pob aelod o'r tîm risg a llywodraethu gwybodaeth yn gyfrifol am gyfarwyddiaeth, yn ogystal â maes cyfrifoldeb arbenigol, fel rheoli asedau gwybodaeth, ond ni cheir disgrifiad o rôl y SDD. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflwyno papur gerbron y Pwyllgor Hysbysrwydd, Ymchwil a Gwybodaeth sy'n disgrifio rôl y SDD. | Naddo, ond mae cynllun wedi'i sefydlu i ymdrin â hyn. |
| A4 | Cwblhaodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol archwiliad o drefniadau seiberddiogelwch yr Ymddiriedolaeth ar yr un pryd ag yr oedd yr | Ni welodd yr Ymddiriedolaeth unrhyw fylchau yn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth yn dilyn yr adolygiad Archwilio Mewnol o seiberddiogelwch. Canfu adolygiad dilynol gan yr Adran Archwilio Mewnol fod yr | Do |

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| | Ymddiriedolaeth yn datblygu'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth newydd a gweithdrefnau ategol. Dylai'r Ymddiriedolaeth gymharu canfyddiadau'r Archwilwyr Allanol â'r polisi newydd a'r gweithdrefnau ategol er mwyn sicrhau na cheir unrhyw fylchau. | Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da gan ymdrin yn llawn â 7 o'r 8 o argymhellion, ac wedi ymdrin yn rhannol â'r argymhelliad olaf. | |
| A5 | Nid yw'r Fframwaith Cyflawni yn trafod hyd a lled holl fusnes yr Ymddiriedolaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth felly gytuno ar fesurau realistig ar gyfer y rhannau hynny o fusnes nad ydynt wedi'u trafod yn y Fframwaith Cyflawni ar hyn o bryd, fel Gwella Ansawdd y GIG/1000 o Fywydau, deallusrwydd iechyd a rhaglenni gwella iechyd cenedlaethol fel 'y 1,000 diwrnod cyntaf', er mwyn galluogi'r Bwrdd i graffu ac adrodd arnynt yn unol â hynny. | Mae'r Fframwaith Cyflawni bellach yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetes Cymru, ond nid yw wedi cael ei ehangu i gynnwys mesurau (ansoddol neu feintiol) sy'n trafod pob agwedd ar fusnes yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yn parhau i dderbyn adroddiadau ar hyd a lled y gweithgarwch a gyflawnir gan yr Is-adran Ymchwil a Datblygu (YaD) ac ar berfformiad yn erbyn dangosyddion YaD Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Gwella 1000 o Fywydau. Mae'r Bwrdd bellach yn derbyn adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar weithgarwch YaD a pherfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru.<br>Dengys cynlluniau gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant a'r Bwrdd y byddant yn derbyn gwybodaeth am feysydd gwaith eraill cyn hir, fel adroddiad blynyddol Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, Deallusrwydd Iechyd a gwybodaeth gan Fwrdd Rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf. | Do |
| A6 | Nodir yn y Fframwaith Cyflawni yr adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredol blynyddol, ond dim ond ddwywaith yr adroddwyd ar y cynnydd hwnnw yn gyhoeddus. Yn y cyfamser, dengys Canllawiau | Yng nghynllun blynyddol yr Ymddiriedolaeth, nodir yr adroddir bob chwarter ar gynnydd wrth gyflawni'r amcanion strategol sy'n sail i'r blaenoriaethau strategol. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad ar berfformiad ar gyfer y chwarter cyntaf (Ebrill i Fehefin) ym mis Gorffennaf, ac ar gyfer chwarter dau (Gorffennaf i Fedi) ym mis Tachwedd 2018. Ar ddiwedd yr ail chwarter, mae 86% o'r cerrig | Do |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-2020 y dylai byrddau dderbyn asesiad cyffredinol o gynnydd yn erbyn y cynllun tymor canolig integredig mewn sesiwn gyhoeddus bob dwy flynedd o leiaf. Dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>a. egluro mynychder adroddiadau yn erbyn y Fframwaith Cyflawni; a<br>b. llunio adroddiad yn nodi'r cynnydd cyffredinol yn erbyn cerrig milltir y cynllun tymor canolig integredig a'r effaith. | milltir/gweithrediadau ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau o fewn y graddfeydd amser targed, neu wedi'u cwblhau.<br>Derbyniodd y Bwrdd ei drydydd adroddiad a'i adroddiad terfynol ar gyflawniad cynllun blynyddol 2017-18 ym mis Mai 2018. Am y tro cyntaf, roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y camau i'w symud ymlaen i gynllun blynyddol 2018-19. Mae adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn amlygu nifer fach o gyflawniadau yn 2017-18 yn erbyn y blaenoriaethau strategol.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i ddatblygu fframwaith perfformiad newydd er mwyn cynnal asesiad gwell o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol, ac i ddisgrifio'r gwerth a'r effaith a gyflawnir. | |
| A7 Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau ei Strategaeth Ddigidol eto er mwyn bwrw ymlaen â chynigion a nodwyd yn y cynllun tymor canolig integredig a'r Rhaglen Amlinellol Strategol, gan gynnwys sefydlu'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol er mwyn goruchwylio a chraffu. Yn y cyfamser, barnwyd bod argymhellion o'n harchwiliad blaenorol o gapasiti a seilwaith TG yr Ymddiriedolaeth wedi'u cwblhau, ac mae'n bosib bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn fyrbwyll gan nad yw'r strategaeth wedi'i chwblhau eto. Dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>a. fynd rhagddi i gwblhau'r Strategaeth Ddigidol; | Nid yw'r strategaeth ddigidol wedi cael ei chymeradwyo'n ffurfiol, ond mae'n parhau i fod yn berthnasol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu nad oes angen arweinydd clinigol ar gyfer gwybodeg er mwyn cyflawni ei strategaeth ddigidol, ond mae gan y rhan fwyaf o'r prosiectau digidol arweinwyr clinigol.<br>Mae'r tîm gwybodeg wedi dechrau darparu rhywfaint o hyfforddiant ar elfennau fel canolbwyntiau Microsoft Surface, AirWatch a'r system 'Tarian' ac yn bwriadu ehangu'r hyfforddiant wrth roi systemau newydd ar waith. Dylai newidiadau arfaethedig i strwythurau'r sefydliad a'r pwyllgorau gefnogi gwaith blaenoriaethu a sicrhau goruchwyliaeth a chraffu digonol ar gyflawniad. | Do |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| b. nodi arweinydd clinigol ar gyfer datblygiadau gwybodeg;<br>c. datblygu gwasanaethau hyfforddi TG effeithiol; a<br>d. sefydlu'r Bwrdd Trawsnewid Digidol arfaethedig a chytuno ar ei gylch gorchwyl. | | |

# Atodiad 2

## Ymateb yr Ymddiriedolaeth i argymhellion eleni

Dangosyn 5: ymateb rheolwyr i argymhellion 2018

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A1 Ymddengys fod nifer y GTUoedd a'r GDUoedd yn cynyddu, ac yn ôl y naratif mewn adroddiadau caffael gellid cryfhau rheolaethau eto. Dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>a) sefydlu system i fonitro ac adrodd ar dueddiadau o ran STAs ac SQAs;<br>b) ystyried ailgyflwyno gwybodaeth am gyfanswm a gwerth tendrau a dyfynbrisiau cystadleuol er mwyn creu cyd-destun i asesu nifer a gwerth GTUoedd a GDUoedd; a<br>c) darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol am effeithiolrwydd y camau i sicrhau cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau caffael. | Mae gwaith eisoes wedi cychwyn i gryfhau rheolaethau drwy sefydlu cynllun gwerth caffael a chynnwys hyrwyddwyr caffael. Ceir mecanwaith gadarn ar gyfer adrodd a chofnodi gweithgarwch caffael, a bydd adroddiadau'n cael eu hadolygu gan yr hyrwyddwyr caffael. Bydd nifer ar gwerth [y GTUoedd a'r GDUoedd] yn adlewyrchu maint a natur y gweithgarwch caffael, ac nid oes unrhyw bryderon yn codi o edrych ar dueddiadau.<br>Dyma'r camau a gymerwyd hyd yma:<br>• Mae'r adroddiad ar weithgarwch caffael wedi cael ei adolygu ac erbyn hyn yn amlygu'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Ffeil Nodiadau. Mae hyn yn unol â Gweithdrefnau Ansawdd ISO ar gyfer Caffael, sydd yn pennu gofyniad i "roi nodyn ar ffeil" fel cofnod o benderfyniadau neu o awdurdodi gweithgarwch sy'n wahanol i'r arfer. Lluniwyd y ffurflen hon i fodloni'r gofynion hyn. | Cwblhawyd | Huw George, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | • Caiff archebion a gyflwynir i'w cymeradwyo eu gwirio er cydymffurfiaeth wrth gyrraedd y prynwr. Os na ddarperir gwybodaeth ddigonol, ee, os gofynnir am dri dyfynbris ac na chaiff y dyfynbrisiau hynny eu cyflwyno, bydd yr archeb yn cael ei dychwelyd i'r archebwr. Mae'n rhaid atodi copïau gwirioneddol o ddyfynbrisiau wrth yr archeb er mwyn i'r prynwr sicrhau cydymffurfiaeth.<br>• Bellach rydym wedi mabwysiadu ymagwedd 'Cynllun Gwerth' (Cynllun Caffael Effeithlonrwydd Sefydliadol) lle'r ydym yn myfyrio ar weithgarwch ac yn cytuno ar y meysydd penodol y mae angen mynd i'r afael â hwy, gan sicrhau'n enwedig ymagwedd 'unwaith i bob cyfarwyddiaeth' a, lle bo modd, 'unwaith i Gymru'. Dyma lle byddai'r Tîm Caffael Lleol yn ymgynghori â chydweithwyr Cyrchu Canolog. Mae'r wybodaeth ategol a adolygir gennym yn rhoi dadansoddiad manwl o wariant i'w ddefnyddio'n sail ar gyfer blaenoriaethau. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth fonitro trothwyon ac mewn sefyllfaoedd lle nad yw'r gwasanaeth, o bosib, wedi sylweddoli bod ganddo angen cyfunol. Rydym hefyd yn | | |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | gweithio gyda hyrwyddwyr caffael i sicrhau bod eu gwariant gwirioneddol ar gontract yn cael ei fonitro yn erbyn gwerth y contract, y bydd caniatâd wedi'i roi ymlaen llaw ar gyfer gwariant, ac i hysbysu Caffael mewn da bryd i'w gwneud hi'n bosibl i roi gweithdrefnau caffael pellach ar waith er mwyn parhau i gydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. | | |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales